1502

BIBLIOTHEQUE QUIMPER DIOCESAINE

# CATECISM

O'R

# ATHRAWIAETH GRISTIONOGAWL.

## FFYDD.

### PENOD I

1. **Pwy a'ch gwnaeth chwi?**
Duw a'm gwnaeth i.

2. **Paham y'ch gwnaeth Duw chwi?**
Duw a'm gwnaeth i i'w adnabod, i'w garu, a'i wasanaethu yn y byd hwn, ac i fod yn ddedwydd gydag Ef yn dragywydd yn y byd a ddaw.

3. **Ar lun ac ar ddelw pwy y'ch gwnaeth Duw chwi?**
Duw a'm gwnaeth i ar Ei lun ac ar Ei ddelw Ei hun.

4. **Pa un ai yn eich corph ai yn eich enaid y mae y llun hwn?**
Y mae llun Duw yn fy enaid yn bennaf.

5. **Pa fodd y mae eich enaid yn debyg i Dduw?**
Y mae fy enaid yn debyg i Dduw am ei fod yn ysbryd, ac am ei fod yn anfarwol.

6. **Pa beth ydych yn ei feddwl pan ddywedwch fod eich enaid yn anfarwol?**
Pan ddywedaf fod fy enaid yn anfarwol, yr wyf yn meddwl na all fy enaid fyth farw.

**7. Pa un o'r ddau y mae raid i chwi ofalu mwyaf amdano, ai eich corph, ai ynte eich enaid?**

Rhaid i mi ofalu mwyaf am fy enaid: oblegid Crist a ddywedodd, 'Pa leshâd i ddyn, os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?'*

**8. Pa beth a raid i chwi ei wneuthur er achub eich enaid?**

Er achub fy enaid rhaid i mi addoli Duw trwy Ffydd, gobaith, a chariad; hynny yw, rhaid i mi gredu ynddo, gobeithio ynddo, a'i garu Ef a'm holl galon.

## PENOD II.

**9. Pa beth ydyw Ffydd?**

Y mae Ffydd yn oruwch-naturiol ddawn Duw, yr hon a'n gwna ni yn alluog i gredu heb ammeu ba beth bynag y mae Duw wedi ei ddadguddio.

**10. Paham y rhaid i chwi gredu pa beth bynag y mae Duw wedi ei ddadguddio?**

Rhaid i mi gredu pa beth bynag y mae Duw wedi ei ddadguddio, oblegid y gwirionedd ei hun ydyw Duw, ac ni all Efe na thwyllo, na chael ei dwyllo.

**11. Pa fodd y cewch wybod y pethau ag y mae Duw wedi eu dadguddio?**

Caf wybod y pethau ag y mae Duw wedi eu dadguddio trwy dystiolaeth, dysgeidiaeth, ac awdurdod yr Eglwys Gatholig.

**12. Pwy a roddes i'r Eglwys Gatholig awdurdod i ddysgu?**

Iesu Grist a roddes i'r Eglwys Gatholig awdurdod ddwyfol i ddysgu, pan ddywedodd, 'Ewch a dysgwch yr holl genhedloedd.'†

* Matt. xvi. 26. † *Ibid.*, xxviii. 19.



### CREDO YR APOSTOLION.

**13. Pa rai ydyw'r pethau pennaf ag y mae Duw wedi eu dadguddio?**

Y mae'r pethau pennaf ag y mae Duw wedi eu dadguddio yn gynnwysedig yn Nghredo yr Apostolion.

**14. Dywedwch Gredo yr Apostolion.**

Credaf yn Nuw Dad Hollalluog, Creawdwr nef a daear;—ac yn Iesu Grist, ei unig Fab Ef, ein Harglwydd ni;—yr hwn a ymddygwyd o'r Ysbryd Glân, a aned o Fair Forwyn;—a ddioddefodd dan Bontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd;—a ddisgynodd i uffern; y trydydd dydd a adgyfododd o feirw;—a ddyrchafodd i'r nefoedd; a eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollalluog;—oddiyno y daw i farnu'r byw a'r meirw.—Credaf yn yr Ysbryd Glân;—yr Eglwys Lân Gatholig; Cymmun y Saint;—maddeuant pechodau;—adgyfodiad y Cnawd;—a'r bywyd tragwyddol. Amen.

**15. Pa fodd y dosparthir Credo yr Apostolion?**

Dosparthir Credo yr Apostolion yn neuddeg rhan neu Erthygl.

### ERTHYGL GYNTAF Y CREDO.

**16. Pa un ydyw Erthygl gyntaf y Credo?**

Erthygl gyntaf y Credo yw "Credaf yn Nuw Dad Hollalluog, Creawdwr nef a daear.

**17. Pa beth ydyw Duw?**

Duw yw'r Ysbryd Goruchaf, yr hwn yn unig sydd yn bod o hono ei Hun, ac y sydd yn anfeidrol ym mhob perffeithrwydd.

**18. Paham y gelwir Duw yn Hollalluog?**

Gelwir Duw yn Hollalluog, oblegid Efe a all wneuthur pob peth; 'Gydâ Duw pob peth sydd bosibl.'*

**19. Paham y gelwir Duw yn Greawdwr nef a daear?**

Gelwir Duw yn Greawdwr nef a daear, oblegid Efe a wnaeth nef a daear, a phob peth, o ddim, trwy ei air.

**20. Oni fu ddechreu i Dduw?**

Ni fu ddim dechreu i Dduw: **Efe a fu erioed,** sydd, ac a fydd yn dragywydd.

**21. Ym mha le y mae Duw?**

Y mae Duw ym mhob man.

**22. A ydyw Duw yn gwybod ac yn gweled pob peth?**

Y mae Duw yn gwybod ac yn gweled pob peth, ie, ein meddyliau mwyaf dirgel.

**23. A oes gan Dduw gorph?**

Nid oes gan Dduw gorph: **Yspryd yw.**

**24. Onid oes ond Un Duw?**

Nid oes ond Un Duw.

**25. A oes yn Nuw Dri Pherson?**

Oes; y mae yn Nuw Dri Pherson: **Duw** Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glân.

**26. A ydyw y Tri Pherson yn Dri Duw?**

Nid ydyw'r Tri Pherson yn Dri Duw: y mae'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân oll yn Un ac yn Unrhyw Duw.

**27. Pa beth a elwir dirgelwch y Tri Pherson yn un Duw?**

Dirgelwch y Tri Pherson yn Un Duw a elwir yn nirgelwch y Fendigedig Drindod.

* Matt. xix. 26.



**28. Pa beth a feddyliwch wrth ddirgelwch?**

Wrth ddirgelwch y meddyliaf wirionedd yr hwn sydd uwchlaw rheswm, ond dadguddiedig gan Dduw.

**29. A oes ddim cyffelybrwydd i'r Fendigedig Drindod yn eich enaid?**

Y mae cyffelybrwydd i'r Fendigedig Drindod yn fy enaid, sef, megis yn Un Duw y mae Tri Pherson, felly yn fy un enaid y mae tri gallu.

**30. Pa rai ydyw tri gallu eich enaid?**

Tri gallu fy enaid yw fy nghof, fy neall, a'm hewyllys.

### YR AIL ERTHYGL.

**31. Pa un ydyw'r ail Erthygl o'r Credo?**

Yr ail Erthygl o'r Credo yw 'Ac yn Iesu Grist, ei unig Fab ef, ein Harglwydd ni.'

**32. Pwy yw Iesu Grist?**

Duw Fab yw Iesu Grist, a wnaethwyd yn ddyn drosom.

**33. A ydyw Iesu Grist yn wir Dduw?**

Ydyw; y mae Iesu Grist yn wir Dduw.

**34. Paham y mae Iesu Grist yn wir Dduw?**

Y mae Iesu Grist yn wir Dduw am fod iddo'r un a'r unrhyw natur ddwyfol a Duw Dad.

**35. A fu Iesu Grist yn Dduw erioed?**

Bu Iesu Grist yn Dduw erioed, wedi ei eni o'r Tad o bob tragwyddoldeb.

**36. Pa Berson o'r Fendigaid Drindod yw Iesu Grist?**

Iesu Grist yw'r ail Berson o'r Fendigaid Drindod.

**37. A ydyw Iesu Grist yn wir Ddyn?**

Y mae Iesu Grist yn wir Ddyn.

38. **Paham y mae Iesu Grist yn wir Ddyn?**
Y mae Iesu Grist yn wir Ddyn, oblegid bod iddo natur dyn, corph ac enaid, megis i ninnau.
39. **A fu Iesu Grist yn ddyn o bob tragwyddoldeb?**
Ni fu Iesu Grist yn ddyn o bob tragwyddoldeb; Efe a fu yn ddyn yn unig er amser ei ymgnawdoliaeth.
40. **Pa beth a ddeallwch chwi wrth ei ymgnawdoliaeth?**
Wrth ei ymgnawdoliaeth y deallaf i Dduw Fab gymeryd iddo Ei hun natur dyn: 'y Gair a wnaethwyd yn Gnawd.'*
41. **Pa sawl natur sydd yn Iesu Grist?**
Y mae dwy natur yn Iesu Grist, sef, natur Duw, a natur dyn.
42. **A oes mwy nag Un Person yn Iesu Grist?**
Nid oes ond Un Person yn Iesu Grist, sef, Person Duw Fab.
43. **Paham y gwnaethwyd Duw Fab yn ddyn?**
Duw Fab a wnaethwyd yn Ddyn er ein prynu oddiwrth bechod ac uffern, ac er dysgu i ni 'r ffordd i'r nefoedd.
44. **Pa beth ydyw ystyr Enw sanctaidd Iesu?**
Ystyr Enw sanctaidd Iesu yw Iachawdwr.†
45. **Beth yw ystyr Enw Crist?**
Ystyr Enw Crist yw Eneiniog.
46. **Ym mha le y mae Iesu Grist?**
Y mae Iesu Grist ym mhob lle fel Duw. Fel Duw a wnaed yn Ddyn y mae Efe yn y nef, ac yn Lân Sacrament yr Allor.

### Y DRYDEDD ERTHYGL.

47. **Pa un ydyw'r Drydedd Erthygl o'r Credo?**

* Joan i, 14. † Matt. i, 21.



Y drydedd Erthygl o'r Credo yw 'Yr hwn a ymddygwyd o'r Ysbryd Glân, a aned o Fair Forwyn.'
48. **Pa beth ydyw ystyr y drydedd Erthygl?**
Ystyr y drydedd Erthygl yw cymeryd o Dduw Fab Gorph ac Enaid cyffelyb i'r rhai o'n heiddom ni, yng Nghroth y Fendigaid Fair Forwyn, trwy allu yr Ysbryd Glân.
49. **A oedd i Iesu Grist dad ar y ddaear?**
Nid oedd i Iesu Grist dad ar y ddaear: nid oedd Sant Joseph ond yn geidwad, neu yn dadmaeth Iddo.
50. **Ym mha le y ganed ein Hiachawdwr?**
Ganed ein Hiachawdwr mewn ystabl ym Methlehem.
51. **Ar ba ddydd y ganed ein Hiachawdwr?**
Ganed ein Hiachawdwr ar Ddydd Nadolig.

### Y BEDWAREDD ERTHYGL.

52. **Pa un yw'r bedwaredd Erthygl o'r Credo?**
Y bedwaredd Erthygl o'r Credo yw, 'A ddioddefodd dan Bontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd.'
53. **Pa rai oedd ddioddefiadau pennaf Grist?**
Dioddefiadau pennaf Grist oedd—*yn gyntaf*, ei ing, a'i chwys o waed yn yr Ardd; *yn ail*, ei fflangellu wrth y piler, a'i goroni â drain; ac *yn drydydd*, cario ei Groes, ei groeshoeliad, a'i farwolaeth rhwng dau leidr.
54. **Pa beth a elwir goddefiadau pennaf ein Harglwydd?**
Gelwir goddefiadau pennaf ein Harglwydd yn Ddioddefaint Iesu Grist.
55. **Paham y dioddefodd ein Hiachawdwr?**
Ein Hiachawdwr a ddioddefodd er gwneuthur

iawn am ein pechodau, a phrynu i ni fywyd tragwyddol.

56. **Paham y gelwir Iesu Grist yn Brynwr i ni?**
Gelwir Iesu Grist yn Brynwr i ni o achos mai y pris â pha un ein prynwyd ni yw ei Waed gwerthfawr Ef.

57. **Ar ba ddydd y bu farw ein Hiachawdwr?**
Bu farw ein Hiachawdwr ar ddydd Gwener y Croglith.

58. **Ym mha le y bu farw ein Hiachawdwr?**
Bu farw ein Hiachawdwr ar fynydd Calvaria.

59. **Paham y gwnawn ni arwydd y Groes?**
Gwnawn arwydd y Groes—*yn gyntaf*, er dwyn ar gôf i ni y Fendigaid Drindod; ac *yn ail*, er adgoffâu i ni farw o Dduw Fab drosom ni ar y Groes.

60. **Pa fodd yr adgoffeir i ni y Fendigaid Drindod trwy wneud arwydd y Groes?**
Adgoffeir i ni y Fendigaid Drindod trwy wneud arwydd y Groes trwy y geiriau hyn, sef, 'Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

61. **Pa fodd yr adgoffeir i ni trwy wneud arwydd y Groes farw o Grist drosom ar y Groes?**
Adgoffeir i ni trwy wneud arwydd y Groes farw o Grist drosom ar y Groes trwy ffurf y Groes ei hun, yr hon a wnawn arnom ni ein hunain.

### Y BUMMED ERTHYGL.

62. **Pa un yw'r bummed Erthygl o'r Credo?**
Y bummed Erthygl o'r Credo yw 'a ddisgynodd i uffern: y trydydd dydd a adgyfododd o feirw.'

63. **Pa beth ydych yn ei ddeall wrth y geiriau 'a ddisgynodd i uffern'?**



Wrth y geiriau 'a ddisgynodd i uffern' yr wyf yn deall, cyn gynted ag y bu Crist wedi marw, y disgynodd ei fendigaid enaid Ef i'r rhan honno o uffern a elwir Limbo.

64. **Pa beth ydych yn ei ddeall wrth Limbo?**
Yr wyf yn deall wrth Limbo orphwysfa, neu y fan lle y cedwyd eneidiau'r rhai cyfiawn a fuant feirw o flaen Grist.

65. **Paham y cedwyd eneidiau'r rhai cyfiawn yn Limbo?**
Cedwyd eneidiau y rhai cyfiawn yn Limbo o achos na allasent hwy esgyn i Deyrnas Nef hyd oni agoryd o honi iddynt gan Grist.

66. **Pa beth a ddeallwch wrth y geiriau 'Y trydydd dydd Efe a adgyfododd o feirw'?**
Wrth y geiriau 'Y trydydd dydd efe a adgyfododd o feirw y deallaf ddarfod i Grist gyfodi ei Gorph Sancteidd-lân eilwaith i fywyd ar y trydydd dydd, wedi marw o Hono, a gorwedd am dridiau, sef, rhan o dri diwrnod, yn y bedd.

67. **Ar ba ddydd yr adgyfododd Crist o feirw?**
Crist a adgyfododd o feirw ar ddydd y Pasc.

### Y CHWECHED ERTHYGL.

68. **Pa un ydyw'r chweched Erthygl o'r Credo?**
Y chweched Erthygl o'r Credo yw 'A ddyrchafodd i'r Nefoedd, a eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollalluog.'

69. **Pa beth a ddeallwch wrth y geiriau 'A ddyrchafodd i'r Nefoedd'?**
Wrth y geiriau 'A ddyrchafodd i'r Nefoedd' y deallaf esgyn o'n Hiachawdwr, Gorph ac Enaid, i'r Nefoedd ar ddydd Iau y Dyrchafael, deuddeng niwrnod wedi ei Adgyfodiad.

**70. Pa beth a ddeallwch wrth y geiriau 'a eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollalluog'?**

Wrth y geiriau 'a eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollalluog, ni ddeallaf fod gan Dduw Dad ddwylaw, oblegid ysbryd pur ydyw Duw: ond deallaf fod Crist, megis Duw, yn ogyfuwch â'r Tad; a megis Dyn, ei fod Ef yn y lle goruchaf yn y nefoedd.

Y SEITHFED ERTHYGL.

**71. Pa un ydyw'r seithfed Erthygl o'r Credo?**

Y seithfed Erthygl o'r Credo yw, 'Oddiyno y daw i farnu'r byw a'r meirw.'

**72. Pa bryd y daw Crist drachefn?**

Crist a ddaw o'r Nefoedd drachefn yn y dydd diweddaf, i farnu holl ddynolryw.

**73. Pa rai bethau a farna Crist?**

Crist a farna ein meddyliau, ein geiriau, ein gweithredoedd, a'n gwalliadau.

**74. Pa beth a ddywed Efe wrth y rhai drwg?**

Efe a ddywed wrth y rhai drwg, 'Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barottowyd i'r diafol a'i angylion.'*

**75. Pa beth a ddywed Efe wrth y rhai cyfiawn?**

Efe a ddywed wrth y rhai cyfiawn, 'Dewch, chwi fendigedigion fy Nhad, meddianwch y deyrnas a barotowyd i chwi.'†

**76. Oni fernir pob dyn yn awr ei farwolaeth, megis yn y dydd diweddaf?**

Bernir; 'Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hynny bod barn.'‡

* Matt. xxv, 41. † *Ibid.*, 34. ‡ Heb. ix, 27.



YR WYTHFED ERTHYGL.

**77. Pa un yw'r wythfed Erthygl o'r Credo?**

Yr wythfed Erthygl o'r Credo yw 'Credaf yn yr Ysbryd Glân.'

**78. Pwy ydyw'r Ysbryd Glân?**

Yr Ysbryd Glân yw'r Trydydd Person o'r Fendigaid Drindod.

**79. Pwy y mae'r Ysbryd Glân yn deilliaw oddiwrthynt?**

Y mae'r Ysbryd Glân yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab.

**80. A ydyw'r Ysbryd Glân yn ogyfuwch â'r Tad a'r Mab?**

Y mae'r Ysbryd Glân yn ogyfuwch â'r Tad a'r Mab, canys yr un Duw ac Arglwydd yw Efe a Hwynt-hwy.

**81. Pa bryd y disgynodd yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion?**

Disgynodd yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion ar y Sulgwyn, yn rhith 'tafodau gwahanedig, megis o dân.'*

**82. Paham y disgynodd Efe ar yr Apostolion?**

Disgynodd yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion er cadarnhâu eu ffydd, er eu sancteiddio, ac er eu nerthu i sefydlu'r Eglwys.

Y NAWFED ERTHYGL.

**83. Pa un yw'r nawfed Erthygl o'r Credo?**

Y nawfed Erthygl o'r Credo yw 'Yr Eglwys Lân Gatholig; Cymun y Saint.'

**84. Pa beth ydyw'r Eglwys Gatholig?**

Yr Eglwys Gatholig yw undeb yr holl Ffyddloniaid dan un Pen.

* Actau ii. 3.

85. **Pwy ydyw Pen yr Eglwys Gatholig?**
Pen yr Eglwys Gatholig yw Iesu Grist ein Harglwydd.

86. **Onid oes i'r Eglwys Ben gweledig ar y ddaear?**
Oes; y mae i'r Eglwys Ben gweledig ar y ddaear, sef, Esgob Rhufain, yr hwn yw Ficar Grist.

87. **Paham y mae Esgob Rhufain yn Ben yr Eglwys?**
Y mae Esgob Rhufain yn Ben yr Eglwys, oblegid ei fod yn Olynwr i Sant Pedr, yr hwn a osododd Crist i fod yn Ben yr Eglwys.

88. **Pa fod y gwyddoch chwi osod o Grist Sant Pedr i fod yn Ben yr Eglwys?**
Gwn osod o Grist ef i fod yn Ben yr Eglwys, oblegid Crist a ddywedodd wrtho, 'Ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi. A rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd.'*

89. **Pa beth y gelwir Esgob Rhufain?**
Gelwir Esgob Rhufain yn Bâb, pa air Pâb sydd yn arwyddoccâu Tad.

90. **Ein Tad Ysbrydol, ynte, ydyw Esgob Rhufain?**
Ië; y mae'r Pab yn Dad ysbrydol yr holl Gristionogion.

91. **A ydyw'r Pab yn Fugail ac yn Ddysgawdwr yr holl Gristionogion?**
Ydyw; y mae'r Pab yn Fugail ac yn Ddysgawdwr yr holl Gristionogion, oblegid Crist a wnaeth Sant Pedr yn Fugail yr holl braidd pan ddywedodd, 'Portha fy ŵyn, bugeilia fy nefaid.'† Efe a weddïodd hefyd na ddiffygiai ei 'ffydd' ef

‡ Matt. xvi. 18, 19. ‡ Joan xxi. 15, 16, 17.



byth, ac a orchymynodd iddo 'gadarnhâu' ei frodyr.*

92. **A ydyw'r Pab yn anffaeladwy?**
Ydyw; y mae'r Pab yn anffaeladwy.

93. **Pa beth a ddeallwch pan ddywedwch fod y Pab yn anffaeladwy?**
Pan ddywedaf fod y Pab yn anffaeladwy deallaf na all y Pab, megis Bugail a Dysgawdwr yr holl Gristionogion, gyfeiliorni pan ddeffinia efe y dysgeidiaeth, ynghylch Ffydd neu Foesau, sydd i'w ddal gan yr holl Eglwys.

94. **A oes gan Eglwys Grist nodau wrth y rhai yr adnabyddir hi?**
Oes; y mae gan Eglwys Crist y pedwar nodau hyn wrth ba rai y gallwn ni ei hadnabod hi: y mae hi yn Un—y mae hi yn Sanctaidd—y mae hi yn Gatholig—y mae hi yn Apostolig.

95. **Pa fodd y mae'r Eglwys yn Un?**
Y mae'r Eglwys yn Un trwy gyttuno o'i holl aelodau yn yr un Ffydd, a bod iddynt oll yr un Sacramentau ac Aberth, a'u bod oll wedi eu huno dan un Pen.

96. **Pa fodd y mae'r Eglwys yn Sanctaidd?**
Y mae'r Eglwys yn Sanctaidd drwy ddysgu o Honi athrawiaeth sanctaidd, trwy gyflwyno o Honi i bawb oll foddion sancteiddrwydd, a thrwy fod o Honi yn ymwahanedig o'r byd trwy sancteiddrwydd rhagorol cynnifer o filoedd o'i phlant.

97. **Pa beth ydych yn ei ddeall wrth y gair Catholig?**
Wrth y gair Catholig yr wyf yn dëall Cyfollawl.

* Luc. xxii, 32.

98. **Pa fodd y mae'r Eglwys yn Gatholig, neu yn Gyfollawl?**

Y mae'r Eglwys yn Gatholig neu yn Gyfollawl oblegid y mae Hi yn bodoli trwy'r holl oesoedd, yn dysgu 'r holl genhedloedd, ac yn un Arch o Iachawdwriaeth i bawb.

99. **Pa fodd y mae'r Eglwys yn Apostolig?**

Y mae'r Eglwys yn Apostolig, o achos cynnal o Honi ddysgeidiaeth a thraddodiadau yr Apostolion, a, thrwy ddilyniad di-dor ei Bugeiliaid, derbyn o Honi ei Hurddau a'i hanfoniad oddiwrthynt hwy.

100. **A all yr Eglwys gyfeiliorni yn yr hyn y mae Hi yn ei ddysgu?**

Ni all yr Eglwys gyfeiliorni yn yr hyn y mae Hi yn ei ddysgu mewn perthynas i Ffydd a Moesau, canys ein cyfarwyddes anffaeladwy yw Hi ym mhob un o'r ddau.

101. **Pa fodd y gwyddoch chwi na all yr Eglwys gyfeiliorni yn yr hyn y mae Hi yn ei ddysgu?**

Gwn na all yr Eglwys gyfeiliorni yn yr hyn y mae Hi yn ei ddysgu, oblegid yr addawodd Crist na orchfyga pyrth uffern mo'r Eglwys fyth; hefyd, y dysg yr Ysbryd Glân Iddi yr holl bethau; ac yr erys Efe ei Hun gydâ Hi bob amser hyd ddiwedd y byd.*

102. **Pa beth a ddeallwch wrth Gymun y Saint?**

Wrth Gymun y Saint y deallaf fod holl aelodau yr Eglwys, yn y nef, ar y ddaear, ac yn y Purdan, yn cymuno gydâ'u gilydd, gan eu bod yn un corph yn Iesu Grist.

103. **Pa fodd y mae'r Ffyddloniaid ar y ddaear yn cymuno gydâ 'u gilydd?**

* Matt. xvi. 18; Joan xiv. 16-26; Matt. xxviii. 20.



Y mae'r Ffyddloniaid ar y ddaear yn cymuno gydâ'u gilydd drwy broffesu yr un ffydd, ufuddhâu i'r un awdurdod, a chynnorthwyo eu gilydd gyda'u gweddïau a'u gweithredoedd da.

104. **Pa fodd ydym yn cymuno â'r Saint yn y nef?**

Yr ydym yn cymuno â'r Saint yn y nef trwy eu hanrhydeddu megis aelodau yr Eglwys ag a ogoneddwyd; a hefyd trwy weddïo o honom arnynt, a thrwy weddïo o honynt hwythau drosom ninnau.

105. **Pa fodd ydym yn cymuno â'r eneidiau yn y Purdân?**

Yr ydym yn cymuno â'r Eneidiau yn y Purdan trwy eu cynnorthwyo â'n gweddïau, a'n gweithredoedd da: 'Sanctaidd ac iachus ydyw'r meddwl gweddïo dros y meirw, fel y rhyddheid hwynt oddiwrth eu pechodau.'*

106. **Pa beth ydyw Purdan?**

Purdan ydyw cyflwr ym mha un y mae eneidiau yn dioddef dros amser ar ol marwolaeth o achos eu pechodau.

107. **Pa eneidiau sydd yn myned i Burdan?**

Y mae'r eneidiau yn myned i Burdan ag a ymadawant â'r bywyd hwn mewn pechod maddeuol; hynny yw, nad ydynt wedi talu y cwbl o'r gospedigaeth amserol ddyledus i'r pechodau, euogrwydd pa rai a faddeuwyd.

108. **Pa beth a ddeallwch wrth gospedigaeth amserol?**

Wrth gospedigaeth amserol y deallaf y gospedigaeth a geiff derfyn yn y byd hwn, neu yn y byd a ddaw.

* 2 Macc. xii. 46.

**109. Pa fodd y profir fod Purdan?**
Profir fod Purdan oddiwrth wastadol athrawiaeth yr Eglwys; ac oddiwrth ddysgeidiaeth yr Ysgrythyr Lân, sef, y tâl Duw i bob un yn ol ei weithredoedd; ac nad â dim aflan i fewn i'r nef; ac y bydd rhai yn gadwedig, 'etto felly megis trwy dân.'*

Y DDEGFED ERTHYGL.

**110. Pa un yw'r ddegfed Erthygl o'r Credo?**
Y ddegfed Erthygl o'r Credo yw 'Maddeuant pechodau.'

**111. Pa beth a ddeallir wrth 'faddeuant pechodau'?**
Wrth 'faddeuant pechodau' y deallir adael o Grist y gallu i faddeu pechodau i Fugeiliaid Ei Eglwys.†

**112. Trwy ba foddion y maddeuir pechodau?**
Maddeuir pechodau yn bennaf trwy Fedydd a Phenyd.

**113. Pa beth ydyw Pechod?**
Pechod yw camwedd yn erbyn Duw trwy bob meddwl, gair, gweithred, ac esgeulusdra yn erbyn cyfraith Duw.

**114. Pa sawl fâth o bechod sydd?**
Y mae dau fàth o bechod, sef pechod gwreiddiol, a phechod gweithredol.

**115. Pa beth ydyw Pechod Gwreiddiol?**
Pechod Gwreiddiol yw'r euogrwydd a'r ystaen o bechod, a etifeddwn oddiwrth Adda, yr hwn oed dddechreuad a phenaeth holl ddynolryw.

**116. Pa beth oedd y pechod a wnaeth Adda?**

* Matt. xvi. 27; Apoc. xxi. 27; 1 Cor. iii. 15.
† Ioan xx. 23.



Y pechod a wnaeth Adda oedd y pechod o anufudd-dod, pan fwyttäodd efe'r ffrwyth gwaharddedig.

**117. A ydyw holl ddynolryw wedi cael euogrwydd ac ystaen y pechod gwreiddiol?**
Ydyw; y mae holl ddynolryw wedi cael euogrwydd ac ystaen y pechod gwreiddiol, oddieithr y Wynfydedig Wyryf Fair, yr hon, trwy haeddedigaethau ei Mab dwyfol, a ymddygwyd heb y brycheuyn lleiaf ynddi o bechod gwreiddiol.

**118. Pa beth a elwir y rhagor-fraint yma o'r Wynfydedig Wyryf Fair?**
Gelwir y rhagor-fraint yma o'r Wynfydedig Wyryf Fair yr Ymddwyn Difrycheulyd.

**119. Pa beth ydyw Pechod Gweithredol?**
Pechod Gweithredol yw pob pechod ag ydym ni ein hunain yn ei wneuthur.

**120. Pa fodd yr ydys yn rhanu Pechod Gweithredol?**
Yr ydys yn rhanu Pechod Gweithredol yn Bechod Marwol, ac yn Bechod Maddeuol.

**121. Pa beth ydyw Pechod Marwol?**
Pechod Marwol yw camwedd trwm yn erbyn Duw.

**122. Paham y gelwir ef yn Bechod Marwol?**
Gelwir ef yn Bechod Marwol oblegid ei fod yn lladd yr enaid, ac yn haeddu uffern.

**123. Pa fodd y mae Pechod Marwol yn lladd yr enaid?**
Y mae Pechod Marwol yn lladd yr enaid trwy ei difeddianu hi o'r grâs ag oedd yn ei sancteiddio hi, sef, o'i bywyd goruwch-naturiol.

**124. Ai drwg mawr ydyw syrthio i Bechod Marwol?**

Ydyw; syrthio i Bechod Marwol ydyw'r drwg mwyaf oll.

125. **I ba le yr â y rhai a syrthiant i Bechod Marwol?**

Y rhai a syrthiant i Bechod Marwol a ânt i uffern am bob tragwyddoldeb.

126. **Pa beth ydyw Pechod Maddeuol?**

Y mae Pechod Maddeuol yn gamwedd na ladd yr enaid, ond er hynny a anfoddhâ Duw, ac a arwain yn fynych i Bechod Marwol.

127. **Paham y gelwir ef yn Bechod Maddeuol?**

Gelwir ef yn Bechod Maddeuol oblegid y maddeuir ef yn haws na Phechod Marwol.

### YR UNFED ERTHYGL AR DDEG.

128. **Pa un ydyw'r unfed Erthygl ar ddeg o'r Credo?**

Yr unfed Erthygl ar ddeg o'r Credo yw 'Adgyfodiad y Cnawd.'

129. **Pa beth a ddeallwch wrth 'Adgyfodiad y Cnawd'?**

Wrth 'adgyfodiad y Cnawd,' y deallaf y cyfodwn ni oll â'r un corph yn nydd y Farn.

### Y DDEUDDEGFED ERTHYGL.

130. **Pa un yw'r ddeuddegfed Erthygl o'r Credo?**

Y ddeuddegfed Erthygl o'r Credo yw 'Y Bywyd tragwyddol.'

131. **Pa beth a ddeallir wrth 'Y Bywyd tragwyddol'?**

Wrth 'Y Bywyd tragwyddol' deallir y bydd byw y rhai da am fyth yngogoniant a dedwyddwch y Nef.

132. **Pa beth yw gogoniant a dedwyddwch y nef?**



Gogoniant a dedwyddwch y nef ydyw gweled, caru, a mwynhâu Duw yn dragywydd.

133. **Pa beth a ddywed yr Ysgrythyr am ddedwyddwch y Nef?**

Dywed yr Ysgrythyr am ddedwyddwch y nef 'Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, ba bethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef.'*

134. **Am y rhai drwg—oni chânt hwythau fyw yn dragywydd?**

Cânt; y rhai drwg hefyd a fyddant fyw, ac a gospir yn dragywydd yn nhân uffern.

## GOBAITH.

### PENOD III.

135. **A wna Ffydd yn unig ein cadw ni?**

Na wna; ni all Ffydd yn unig ein cadw ni heb weithredoedd da: rhaid fod genym ni hefyd Obaith a Chariad.

136. **Pa beth ydyw Gobaith?**

Y mae Gobaith yn ddawn goruwch-naturiol, trwy ba un yr ymddiriedwn yn ddilys y rhŷdd Duw i ni fywyd tragwyddol, a'r holl foddion angenrheidiol i ni i'w gael, os gwnawn ni yr hyn ag y mae Efe yn ei ofyn genym.

137. **Paham y mae rhaid i ni obeithio yn Nuw?**

Rhaid i ni obeithio yn Nuw am ei fod Ef yn anfeidrol dda, ac yn anfeidrol alluog, ac yn ffyddlon i'w addewidion.

138. **A allwn ni wneuthur unrhyw weithred dda er ein hiachawdwriaeth o honom ein hunain?**

* 1 Cor. ii. 9.

Ni allwn wneuthur unrhyw weithred dda er ein hiachawdwriaeth heb gymmorth grâs Duw.

139. **Pa beth ydyw Grâs?**

Grâs yw goruwch-naturiol ddawn Duw, yr hwn a roddwyd i ni yn rhâd er ein sancteiddiad, a'n hiachawdwriaeth.

140. **Pa fodd y mae i ni gael grâs Duw?**

Mae i ni gael grâs Duw yn benaf trwy weddi, a thrwy'r Sacramentau sanctaidd.

GWEDDI.

141. **Pa beth ydyw Gweddi?**

Gweddi yw cyfodiad ein meddyliau a'n calonau at Dduw.

142. **Pa fodd y cyfodwn ein meddyliau a'n calonau at Dduw?**

Cyfodwn ein meddyliau a'n calonau at Dduw trwy feddwl am Dduw, ei addoli, ei foliannu, a rhoddi Iddo ddiolch; a thrwy ofyn ganddo bob bendith i'n heneidiau a'n cyrph.

143. **A ydynt hwy yn gweddio yn dda, y rhai ni feddyliant am Dduw, nac am ba beth a ddywedant yn eu gweddiau?**

Ni weddiant yn dda y rhai na feddyliant am Dduw, nac am ba beth a ddywedant yn eu gweddiau; eithr y maent yn digio Duw, os bydd eu crwydr-feddyliau yn wirfoddol.

144. **Pa un ydyw'r weddi oreu oll?**

Y weddi oreu oll yw'r Pader, neu Weddi yr Arglwydd.

145. **Pwy a wnaeth Weddi yr Arglwydd?**

Ein Harglwydd Iesu Grist.

146. **Dywedwch Weddi yr Arglwydd?**

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw;—deued dy deyrnas;—Bydded dy Ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. —Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol; a maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr; —ac nac arwain ni i brofedigaeth;—eithr gwared ni rhag drwg. Amen.



147. **Pwy yw yr hwn a elwir ein Tad yngweddi yr Arglwydd?**

Duw yw yr hwn a elwir ein Tad yngweddi yr Arglwydd.

148. **Paham y gelwir Duw yn Dad i ni?**

Gelwyr Duw yn Dad i ni, oblegid Tad yr holl Gristionogion yw Efe, pa rai y mae Efe wedi eu gwneuthur yn blant Iddo drwy lân Fedydd.

149. **Onid ydyw Duw hefyd yn Dad holl ddynolryw?**

Ydyw; y mae Duw yn Dad holl ddynolryw, oblegid Efe a'u gwnaeth oll, ac a'u câr, ac a'u ceidw oll.

150. **Paham y dywedwn 'Ein' Tad, ac nid 'Fy' Nhad?**

Dywedwn 'Ein' Tad, ac nid 'Fy' Nhad, o herwydd, gan ein bod oll yn frodyr, y dylem weddio dros bawb eraill, yn gystal a throsom ein hunain.

151. **Pan ddywedwn 'Sancteiddier Dy Enw', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn 'Sancteiddier Dy Enw', gweddiwn ar i Dduw gael ei anrhydeddu, ei garu, a'i wasanaethu gan ei holl greaduriaid.

152. **Pan ddywedwn 'Deued dy deyrnas', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn 'Deued dy deyrnas' gweddiwn ar i Dduw ddyfod a theyrnasu ynghalonau pawb

trwy ei râs yn y byd hwn, a'n dwyn ni oll i'w deyrnas nefol yn y byd a ddaw.

153. **Pan ddywedwn, 'Bydded dy Ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn, 'Bydded dy Ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd', gweddiwn ar i Dduw ein nerthu ni, trwy ei râs, i wneuthur ei Ewyllys Ef ymhob peth, fel y gwna'r rhai Bendigedig yn y nef.

154. **Pan ddywedwn 'Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn, 'Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol', gweddiwn ar i Dduw roddi i ni bob dydd pa beth bynag sydd angenrheidiol i'r enaid a'r corph.

155. **Pan ddywedwn, 'Maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn 'Maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr', gweddiwn ar i Dduw faddeu i ni ein pechodau, megis y maddeuwn ninau i eraill y troseddau ag a wnant hwy i'n herbyn.

156. **Pan ddywedwn 'Nac arwain ni i brofedigaeth', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn 'Nac arwain ni i brofedigaeth', gweddiwn ar i Dduw roi i ni râs nad elom i brofedigaeth.

157. **Pan ddywedwn, 'Gwared ni rhag drwg', pa beth y gweddiwn amdano?**

Pan ddywedwn, 'Gwared ni rhag drwg', gweddiwn ar i Dduw ein rhyddhâu ni oddiwrth bob drwg enaid a chorph.



158. **A ddylem ni ofyn i'r Angylion a'r Saint weddio drosom?**

Dylem ofyn i'r Angylion a'r Saint weddio drosom am mai ein cyfeillion a'n brodyr ni ydynt, a bod gan eu gweddiau fawr allu gydâ Duw.

159. **Pa fodd y gallwn ni arddangos bod yr Angylion a'r Saint yn gwybod y pethau a ddigwyddant ar y ddaear?**

Gallwn arddangos bod yr Angylion a'r Saint yn gwybod y pethau a ddigwyddant ar y ddaear oddiwrth eiriau Grist, 'Bydd llawenydd yngwydd Angylion Duw am un pechadur yn gwneuthur penyd.'*

160. **Pa un ydyw'r brif weddi ar yr Wyryf Fendigedig yr hon y mae'r Eglwys yn ei harfer?**

Y brif weddi ar yr Wyryf Fendigedig yr hon y mae'r Eglwys yn ei harfer yw'r 'Henffych Well Fair.'

161. **Dywedwch yr Henffych Well Fair?**

Henffych well, Fair, gyflawn o râs; mae'r Arglwydd gydâ thi; bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth di Iesu. Sanctaidd Fair, Mam Duw, gweddia drosom ni bechaduriaid, yr awr hon, ac yn awr ein marwolaeth. Amen.

162. **Pwy a wnaeth y ran gyntaf o'r Henffych Well Fair?**

Yr Angel Gabriel, a'r Santes Elisabeth, yn gynhyrfedig gan yr Ysbryd Glân, a wnaeth y ran gyntaf o'r Henffych Well Fair.

163. **Pwy a wnaeth yr ail ran o'r Henffych Well Fair?**

Eglwys Dduw, yn hyfforddiedig gan yr

* Luc. xv. 10.

Ysbryd Glân, a wnaeth yr ail ran o'r Henffych Well Fair.

164. **Paham y dylem ni ddywedyd yn fynych yr Henffych Well Fair?**

Dylem ddywedyd yn fynych yr Henffych Well Fair, er dwyn ar gof i ni Ymgnawdoliaeth Duw Fab; ac er anrhydeddu ein Harglwyddes Fendigaid, Fam Duw.

165. **A oes i ni achos arall am ddywedyd yn fynych yr Henffych Well Fair?**

Oes; y mae i ni achos arall am ddywedyd yn fynych yr Henffych Well Fair, sef, i ofyn i'n Harglwyddes Fendigedig weddio drosom ni bechaduriaid bob amser, eithr yn benaf yn awr ein marwolaeth.

166. **Paham y mae'r Eglwys Gatholig yn arddangos mawr ddyhewyd tuag at yr Wyryf Fendigaid?**

Y mae'r Eglwys Gatholig yn arddangos mawr ddyhewyd tuag at yr Wyryf Fendigaid, o herwydd ei bod Hi yn ddifrycheulyd Fam Duw.

167. **Pa fodd y mae'r Wyryf Fendigaid yn Fam Duw?**

Y mae'r Wyryf Fendigaid yn Fam Duw, am fod Iesu Grist ei Mab Hi, yr Hwn a aned o Honi, nid yn unig yn Ddyn, ond hefyd yn Fab Duw.

168. **A ydyw'r Wyryf Fendigaid yn Fam hefyd i ninau?**

Ydyw; y mae'r Wyryf Fendigaid yn Fam hefyd i ninau, am fod o honom yn frodyr i'r Jesu, ae am hyny yn blant i Mair.



## CARIAD.

### PENOD IV.

#### GORCHYMYNION DUW.

169. **Pa beth ydyw Cariad?**

Goruwch-naturiol ddawn Duw ydyw Cariad, trwy ba un y carwn Dduw uwchlaw pob dim, a'n cymydog fel ni ein hunain er mwyn Duw.

170, **Paham y mae rhaid i ni garu Duw?**

Rhaid i ni garu Duw, am ei fod yn anfeidrol dda ynddo ei Hun, ac yn anfeidrol dda wrthym ni.

171. **Pa fodd y danghoswn ein bod yn caru Duw?**

Danghoswn ein bod yn caru Duw trwy gadw ei orchymynion Ef: oblegid y dywed Grist 'O cherwch Fi, cedwch fy Ngorchymynion.'*

172. **Pa sawl Gorchymyn sydd?**

Deg Gorchymyn sydd.

173. **Dywedwch y Deg Gorchymyn?**

Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddûg di allan o dir yr Aipht, ac o dŷ'r caethiwed.

1. Na fydded it' Dduwiau eraill ger fy mron I. Na wna it' ddim peth cerfiedig, na chyffelybiaeth dim sydd yn y nefoedd uchod, nac yn y ddaear isod, nac yn y dyfroedd tan y ddaear; Nac addola, ac na wasanaetha hwynt.
2. Na chymer Enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer.
3. Cofia gadw yn sainctaidd y dydd Sabbath.
4. Anrhydedda dy dad a'th fam.
5. Na ladd.
6. Na wna odineb.
7. Na ladratta.

* Joan xiv. 15.

8. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.
9. Na chwenych wraig dy gymydog.
10. Na thrachwanta ddim a'r sydd yn eiddo dy gymydog.

174. **Pwy a roddes y Deg Gorchymyn?**
Duw a roddes y Deg Gorchymyn i Foses yn yr Hên Ddeddf, a Christ a'u cadarnhaodd yn y Ddeddf Newydd.

I.

175. **Pa un yw'r Gorchymyn cyntaf?**
Y Gorchymyn cyntaf yw 'Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddûg di allan o dir yr Aipht, ac o dŷ'r caethiwed. Na fydded it' Dduwiau eraill ger fy mron I. Na wna it' ddim peth cerfiedig, na chyffelybiaeth dim sydd yn y nefoedd uchod, nac yn y ddaear isod, nac yn y dyfroedd tan y ddaear: nac addola, ac na wasanaetha hwynt.'

176. **Pa beth a orchymynir i ni ei wneuthur gan y Gorchymyn cyntaf?**
Gan y Gorchymyn cyntaf y gorchymynir i ni addoli yr unig wir Dduw byw, trwy Ffydd, Gobaith, Cariad, a Chrefydd.

177. **Pa rai yw'r pechodau yn erbyn Fydd?**
Y pechodau yn erbyn Ffydd yw pob gau grefydd, ammheuaeth gwirfoddol, anghrediniaeth, neu wadiad o un erthygl o'r Ffydd, a hefyd beius anwybodaeth o athrawiaeth yr Eglwys.

178. **Pa fodd yr ymberyglwn i golli ein Ffydd?**
Ymberyglwn i golli ein Ffydd trwy esgeuluso ein dyledswyddau ysbrydol, darllain llyfrau drwg, myned i ysgolion nad ydynt Gatholig, a chymmeryd



cyfran yng ngweinidogaeth neu weddiau unrhyw au grefydd.

179. **Pa rai yw'r pechodau yn erbyn Gobaith?**
Y pechodau yn erbyn Gobaith yw anobaith a rhyfyg.

180. **Pa rai yw'r pechodau penaf yn erbyn Crefydd?**
Y pechodau penaf yn erbyn Crefydd yw addoli gau dduwiau neu eilunod, a rhoddi i unrhyw greadur yr anrhydedd sydd yn perthyn i Dduw yn unig.

181. **A ydyw'r Gorchymyn cyntaf yn gwahardd gwneuthur delwau?**
Nid yw y Gorchymyn cyntaf yn gwahardd gwneuthur delwau, ond gwneuthur eilunod: sef yn gwahardd i ni wneuthur delwau i'w haddoli, neu i'w hanrhydeddu fel duwiau.

182. **A ydyw'r Gorchymyn cyntaf yn gwahardd masnach â'r diafol, ac arferion coel-grefyddol?**
Y mae'r Gorchymyn cyntaf yn gwahardd pob masnach â'r diafol, ac arferion coel-grefyddol, megis ymofyn â swynwyr ysbrydion, Spiritualistiaid, a swyngyfareddwyr, ac ymddiried wrth gyfareddion, argoelion, breuddwydion, a'r cyfryw ffoleddau.

183. **A ydyw pob pechod o gyssegr-ladrad a simoniaeth yn waharddedig hefyd gan y Gorchymyn cyntaf?**
Y mae pob pechod o gyssegr-ladrad a simoniaeth, hynny yw, cymmeryd neu roî gwobr neu werth am unryw beth cyssegredig, ynwaharddedig gan y Gorchymyn cyntaf.

184. **Ai gwaharddedig yw rhoi anrhydedd dwyfol i'r Angylion a'r Saint?**

Gwaharddedig yw rhoi anrhydedd dwyfol i'r Angylion a'r Saint, canys hyn sydd eiddo Duw yn unig.

185. **Pa fath o anrhydedd neu o barch y dylem ni ei dalu i'r Angylion a'r Saint?**

Dylem dalu i'r Angylion a'r Saint anrhydedd neu barch îs na hyny, oblegid y mae hyn yn ddyledus iddynt megis gweision ac arbenig gyfeillion i Dduw.

186. **Pa anrhydedd y dylem ni ei roddi i greiriau, crogau, a lluniau bendigaid?**

Dylem roddi i greiriau, crogau, a lluniau bendigaid yr anrhydedd priodol iddynt, megis y maent yn perthyn i Grist ac i'w Saint Ef, ac yn eu dwyn ar gôf i ni.

187. **A ydym ni yn gweddio ar greiriau, neu ar luniau?**

Nid ydym ni yn gweddio ar greiriau, nac ar luniau, canys ni fedrant hwy na'n gweled, na'n clywed, na'n cymmorth.

## II.

188. **Pa un ydyw'r ail Orchymyn?**

Yr ail Orchymyn yw 'Na chymer Enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer.'

189. **Pa beth a orchymynir i ni gan yr ail Orchymyn?**

Gan yr ail Orchymyn y gorchymynir i ni lefaru yn barchus am Dduw, ac am bob person a phob peth sanctaidd; ac i gadw ein llwon a'n haddunedau cyfreithlawn.

190. **Pa beth y mae'r ail Orchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r ail Orchymyn yn gwahardd pob llw gau, byrbwyll, anghyfiawn, ac afreidiol; melldith hefyd, a chabledd, a phob drygair.



191. **A ydyw un amser yn gyfreithlawn i dyngu, neu gymeryd llw?**

Y mae yn gyfreithlawn i dyngu, neu gymeryd llw, yn unig pan y mae anrhydedd Duw, neu leshâd i ni ein hunain, neu i'n cymydog, yn ei ofyn.

## III.

192. **Pa un ydyw'r trydydd Gorchymyn?**

Y trydydd Gorchymyn yw 'Cofia gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath.'

193. **Pa beth a orchymynir i ni gan y trydydd Gorchymyn?**

Gan y trydydd Gorchymyn y gorchymynir i ni gadw yn sanctaidd y Dydd Sul.

194. **Pa fodd ydym i gadw yn sanctaidd y Dydd Sul?**

Yr ydym i gadw yn sanctaidd y Dydd Sul trwy wrando'r Offeren, a gorphwyso oddiwrth gyflog-waith.

195. **Paham y gorchymynir i ni orphwyso oddiwrth gyflog-waith?**

Gorchymynir i ni orphwyso oddiwrth gyflog-waith er mwyn i ni gael amser a chyfleusdra i weddio, cyrchu at y Sacramentau, gwrando ar athrawiaeth, a darllain llyfrau da.

## IV.

196. **Pa un yw'r pedwerydd Gorchymyn?**

Y pedwerydd Gorchymyn yw 'Anrhydedda dy dad a'th fam.'

**197. Pa beth a orchymynlr i ni gan y pedwerydd Gorchymyn?**

Gan y pedwerydd Gorchymyn y gorchymynir i ni garu, parchu, ac ufuddhâu i'n rhieni ym mhob peth nad yw bechod.

**198. A orchymynir i ni ufuddhâu i'n rhieni yn unig?**

Ni orchymynir i ni ufuddhâu i'n rhieni yn unig, ond hefyd i'n hesgobion, a'n bugeiliaid, i'r penaethiaid gwladol, a'n blaenoriaid cyfreithlawn.

**199. A ydyw yn ddyledus arnom gynnorthwyo ein rhieni?**

Y mae'n ddyledus arnom gynnorthwyo ein rhieni yn eu hangenreidiau yn gystal o'r enaid a'r corph.

**200. A ydyw cyfiawnder yn ein rhwymo i gyfranu at gynhaliaeth ein Bugeiliaid?**

Y mae cyfiawnder yn ein rhwymo i gyfranu at gynhaliaeth ein Bugeiliaid; oblegid y dywed Sant Paul, 'Ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sy'n pregethu'r Efengyl fyw wrth yr Efengyl.'*

**201. Pa un yw dyledswydd rhieni tuag at eu plant?**

Dyledswydd rhieni tuag at eu plant yw eu hamgeleddu, eu hathrawiaethu, a rhoddi iddynt addysg dda Gatholig.

**202. Pa beth yw dyledswydd meistriaid a meistresi a llywyddion eraill?**

Dyledswydd meistriaid, a meistresi a llywyddion eraill yw amgeleddu yn iawn am y rhai sydd o dan eu cadwraeth, a'u galluogi i ymarferu eu dyledswyddau crefyddol.

* 1 Cor. ix. 14.



**203. Pa beth y mae'r pedwerydd Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd pob dirmyg, ystyfnigrwydd, ac anufudd-dod i'n blaenoriaid cyfreithlawn.

**204. Ai pechadurus yw perthyn i Gymdeithas Dirgelaidd?**

Pechadurus yw perthyn i unrhyw gymdeithas Dirgelaidd sydd yn cyf adu yn erbyn yr Eglwys neu Lywodraeth y Wlad, nag i'r un Cymdeithas pa un a farnwyd yn ddrwggan yr Eglwys o achos ei ddirgelrwydd; oblegid y dywed Sant Paul: 'Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel; pwy bynag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw; a'r rhai a wrthwynebant a brynant farnedigaeth iddynt eu hunain.'*

V.

**205. Pa un ydyw'r pummed Gorchymyn?**

Y pummed Gorchymyn yw, 'Na ladd.'

**206. Pa beth y mae'r pummed Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r pummed Gorchymyn yn gwahardd pob llofruddiad, ymladd, cynen, a geiriau niweidiol; ac achos tramgwydd, a drwg esiampl hefyd.

**207. A ydyw'r pummed Gorchymyn yn gwahardd llid?**

Y mae'r pummed Gorchymyn yn gwahardd llid, ac heblaw hynny, gasineb hefyd, ac ymddial.

**208. Paham y gwaherddir achos tramgwydd a drwg esiampl gan y pummed gorchymyn?**

* Rom. xiii. 1, 2.

Gwaherddir achos tramgwydd a drwg esiampl gan y pummed Gorchymyn, o achos eu bod yn arwain i niwed a marwolaeth ysbrydol enaid ein cymydog.

VI.

209. **Pa un ydyw'r chweched Gorchymyn?**

Y chweched Gorchymyn yw, 'Na wna odineb.'

210. **Pa beth y mae'r chweched Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r chweched Gorchymyn yn gwahardd pob math o anniweirdeb gydâ gwraig neu wr neb arall.

211. **A ydyw'r chweched Gorchymyn yn gwahardd pob peth ag y sydd yngwrthwyneb i lân burdeb, mewn golwg, gair a gweithred?**

Y mae'r chweched Gorchymyn yn gwahardd pob peth gwrthwynebol i lân purdeb mewn golwg, gair, a gweithred.

212. **A waherddir chwareuon dynwaredol anlladaidd gan y chweched Gorchymyn?**

Gwaherddir chwareuon dynwaredol anlladaidd gan y chweched Gorchymyn, a phechadurus yw edrych arnynt.

213. **A ydyw'r chweched Gorchymyn yn gwahardd anlladaidd ganiadau, llyfrau, a darluniau?**

Y mae'r chweched Gorchymyn yn gwahardd anlladaidd ganiadau, llyfrau, a darluniau, am eu bod i'r eithaf yn beryglus i'r enaid, ac yn arwain i bechod marwol.



VII.

214. **Pa un ydyw'r seithfed Gorchymyn?**

Y seithfed Gorchymyn yw 'Na ladratta.'

215. **Pa beth y mae'r seithfed Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r seithfed Gorchymyn yn gwahardd pob anghyfiawn gymeriad neu attaliad o eiddo neb arall.

216. **A waherddir pob math o dwyllo wrth brynu a gwerthu yn y seithfed Gorchymyn?**

Yn y seithfed Gorchymyn y gwaherddir pob math o dwyllo wrth brynu a gwerthu, a phob modd arall hefyd ar wneuthur cam â'n cymydog.

217. **A ydym ni yn rhwymedig i adferu pob peth a ynnillwyd ar gam?**

Yr ydym ni yn rhwymedig i adferu, os gallwn, pob peth a ynnillwyd ar gam, onidê, ni faddeuir i ni y pechod; rhaid i ni hefyd dalu ein dyledion.

218. **A ydyw yn anonest i weision afradu amser neu eiddo eu meistr?**

Y mae yn anonest i weision afradu amser neu eiddo eu meistr, o achos mai hynny yw afradu'r hyn nad yw yn perthyn iddynt.

VIII.

219. **Pa un ydyw'r wythfed Gorchymyn?**

Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog.

220. **Pa beth y mae'r wythfed Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r wythfed Gorchymyn yn gwahardd pob cam dystiolaeth, byrbwyll farn, a chelwydd.

221. **A waherddir enllib ac anair gan yr wythfed Gorchymyn?**

Gwaherddir enllib ac anair gan yr wythfed Gorchymyn, a hefyd cario chwedlau, a'r cyfryw eiriau ag a wnant gam i enw da ein cymydog.

222. **Os gwnaethoch gam i enw da eich cymydog trwy lefaru drwg amdano, pa beth ydych yn rhwymedig i wneuthur?**

Os gwnaethum gam i'm cymydog trwy lefaru drwg amdano, yr wyf yn rhwymedig i wneuthur iawn iddo gan adferu ei enw da cymhelled ag y gallwyf.

IX.

223. **Pa beth ydyw'r nawfed Gorchymyn?**

Y nawfed Gorchymyn yw 'Na chwenych wraig dy gymydog.'

224. **Pa beth y mae'r nawfed Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r nawfed Gorchymyn yn gwahardd pob cydsyniad gwirfoddol â meddyliau a chwantau anllad, a phob difyrwch gwirfoddol yngwyniau afreolus y cnawd.

225. **Pa bechodau a arweiniant yn arferol i dorriad y chweched a'r nawfed Gorchymyn?**

Y pechodau a arweiniant yn arferol i dorriad y chweched a'r nawfed Gorchymyn yw glythineb, meddwdod, anghymedrolder, drwg gyfeillach, ac esgeulusdra gweddi.

X.

226. **Pa un ydyw'r degfed Gorchymyn?**

Na chwennych ddim a'r sydd eiddo dy gymydog.



227. **Pa beth y mae'r degfed Gorchymyn yn ei wahardd?**

Y mae'r degfed Gorchymyn yn gwahardd pob meddwl cynfigenus, a chybyddus, a chwant anghyfiawn ar dda ac elw ein cymydog.

## PENNOD V.

228. **A ydym ni yn rhwymedig i ufuddhâu i'r Eglwys?**

Yr ydym yn rhwymedig i ufuddhâu i'r Eglwys, oblegid Crist a ddywedodd wrth Fugeiliaid yr Eglwys, 'Y neb sydd yn eich gwrando chwi sydd yn fy ngwrando I; a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi sydd yn fy nirmygu I.' *

229. **Pa rai yw Gorchymynion pennaf yr Eglwys?**

Gorchymynion pennaf yr Eglwys yw:

1. Cadw yn sanctaidd y Suliau a'r Gwyliau o Rwymedigaeth, trwy wrando yr Offeren, a gorphwyso oddiwrth gyflog-waith.
2. Cadw dyddiau ympryd ac arbedrwydd gosodedig gan yr Eglwys.
3. Myned i gyffes unwaith yn y flwyddyn o'r lleiaf.
4. Derbyn y Lân Sacrament unwaith yn y flwyddyn o'r lleiaf, a hyny yn Ngŵyl y Pasg, neu oddeutu'r amser hwnw.
5. Cyfranu at gynhaliaeth ein Bugeiliaid.
6. Peidio â phriodi o fewn rhai graddau o berthynas, na gweini priodas ar yr amserau gwaharddedig.

230. **Pa un yw Gorchymyn cyntaf yr Eglwys?**

* Luc. x. 16.

Gorchymyn cyntaf yr Eglwys yw 'Cadw yn sanctaidd y Suliau a'r Gwyliau o Rwymedigaeth trwy wrando yr Offeren, a gorphwyso oddiwrth gyflog-waith.'

231. **Pa rai ydyw y Gwyliau o Rwymedigaeth i'w cadw gan yn y wlad yma?**

Y Gwyliau o Rwymedigaeth i'w cadw yn y wlad yma yw'r Dydd Nadolig, yr Enwaediad, yr Ystwyll, y Dyrchafael, Gŵyl Corph Crist, Gŵyl Sant Pedr a Sant Paul, Cymmeriad yr Wyryf Fendigaid Fair i'r Nef, a Gŵyl yr Holl Saint.

232. **Ai pechod marwol yw esgeuluso gwrando yr Offeren ar y Suliau, a'r Gwyliau o Rwymedigaeth?**

Pechod marwol ydyw esgeuluso gwrando yr Offeren ar y Suliau, a'r Gwyliau o Rwymedigaeth.

233. **A ydyw rhieni, meistriaid, a meistresi yn rhwymedig i ofalu am wrando yr Offeren gan y rhai sydd o dan eu gofal hwynt, ar y Suliau a'r Gwyliau o Rwymedigaeth?**

Y mae rhieni, meistriaid a meistresi yn rhwymedig i ofalu am wrando yr Offeren gan y rhai sydd o dan eu gofal hwynt ar y Suliau a'r Gwyliau o Rwymedigaeth.

234. **Pa un ydyw ail Orchymyn yr Eglwys?**

Ail Orchymyn yr Eglwys yw cadw dyddiau ympryd ac arbedrwydd gosodedig gan yr Eglwys.

235. **Pa beth a ddeallir wrth ddyddiau ympryd?**

Y mae dyddiau ympryd yn ddyddiau ar ba rai ni chaniateir i ni gymeryd ond un pryd o fwyd, ac y gwaherddir i ni fwyta cig heb gennad neillduol.

236. **Pa rai ydyw'r dyddiau ympryd?**

Y dyddiau ympryd yw deugain niwrnod y Garawys; rhai nos-wyliau; dyddiau y cyd-goriau; ac, yn y wlad yma, pob dydd Mercher a dydd Gwener yn yr Adfent.



237. **Pa beth a ddeallir wrth ddyddiau arbedrwydd?**

Dyddiau arbedrwydd yw dyddiau ar ba rai y gwaherddir i ni fwytta cig, ond rhydd yw i ni gymeryd ein prydiau fel yn arferol.

238. **Pa rai ydyw 'r dyddiau arbedrwydd?**

Y dyddiau arbedrwydd yw pob dydd Gwener ond y dydd Gwener ar ba un y digwydd y Dydd Nadolig; a'r Suliau yn y Garawys, oni roddir caniatâd i fwytta cig arnynt.

239. **Paham y mae'r Eglwys yn gorchymyn i ni ymprydio ac ymarbed?**

Y mae'r Eglwys yn gorchymyn i ni ymprydio ac ymarbed, fel y bo i ni farweiddio felly y cnawd, a dadolychu i Dduw am ein pechodau.

240. **Pa un ydyw trydydd Gorchymyn yr Eglwys?**

Trydydd Gorchymyn yr Eglwys yw 'Myned i gyffes unwaith yn y flwyddyn o'r lleiaf.'

241. **Pa mor gynted y mae plant yn rhwymedig i fyned i gyffes?**

Y mae plant yn rhwymedig i fyned i gyffes yn uniawn wedi dyfod o honynt i arfer pwyll, a gallu bod yn euog o bechod marwol.

242. **Pa bryd y tebygir yn gyffredinol ddyfod o blant i arfer pwyll?**

Tebygir yn gyffredinol ddyfod o blant i arfer pwyll ynghylch saith oed.

243. **Pa un yw pedwerydd Gorchymyn yr Eglwys?**

Pedwerydd Gorchymyn yr Eglwys yw 'Derbyn y Lân Sacrament unwaith yn y flwyddyn o'r lleiaf,' a hyny yngŵyl y Pasg, neu oddeutu'r amser hwnw.

**244. Ar ba oed y mae Cristionogion yn rhwymedig i dderbyn y Lân Sacrament?**

Y mae Cristionogion yn rhwymedig i dderbyn y Lân Sacrament cyn gynted ag y byddant yn alluog i gael eu hathrawiaethu yn y dirgeledigaeth sanctaidd hwnw.

**245. Pa un ydyw pummed Gorchymyn yr Eglwys?**

Pummed Gorchymyn yr Eglwys yw gyfranu at gynhaliaeth ein Bugeiliaid.

**246. Ai dyledswydd yw gyfranu at gynhaliaeth Crefydd?**

Y mae yn ddyledswydd gyfranu at gynhaliaeth Crefydd yn ol y moddion sydd genym, er mwyn i Dduw gael ei anrhydeddu a'i addoli yn ddyledus, ac i deyrnas ei Eglwys gael ei hestyn.

**247. Pa un ydyw chweched Gorchymyn yr Eglwys?**

Chweched Gorchymyn yr Eglwys yw peidio â phriodi o fewn rhai graddau o berthynas, na gweinyddu priodas ar yr amserau gwaharddedig.

**248. Pa rai ydyw'r amserau gwaharddedig i weinyddu arnynt briodas?**

Yr amserau gwaharddedig i weinyddu arnynt briodas yw, o Sul cyntaf yr Adfent hyd wedi'r Ystwyll, ac o Ddydd Mercher y Lludw hyd wedi Isel-Wyl y Pasg.

---

## Y SACRAMENTAU.

### PENNOD VI.

**249. Pa beth ydyw Sacrament?**

Y mae Sacrament yn arwydd oddi allan o râs oddi fewn, wedi ei ordeinio gan Iesu Grist, trwy ba un y rhoddir grâs i'n heneidiau.



**250. A ydyw 'r Sacramentau yn rhoddi grâs bob amser?**

Y mae'r Sacramentau yn rhoddi grâs bob amser i'r sawl a'u derbyniant yn deilwng.

**251. Trwy ba beth y mae gan y Sacramentau y gallu o roddi grâs?**

Y mae gan y Sacramentau y gallu o roddi grâs trwy haeddedigaethau gwaed gwerthfawr Crist, pa rai y maent yn eu cyfranu i'n heneidiau.

**252. A ddylem ni ddeisyf yn fawr dderbyn y Sacramentau?**

Dylem ddeisyf yn fawr dderbyn y Sacramentau, am eu bod hwy yn foddion pennaf ein Hiachawdwriaeth.

**253. A roddir i'r enaid arnodiad priodol gan rai o'r Sacramentau?**

Rhoddir i'r enaid arnodiad priodol gan Sacramentau Bedydd, Cadarnhâd, ac Urddau.

**254. Pa beth yw arnodiad?**

Arnodiad yw nod, neu sêl ar yr enaid, yr hwn ni ellir ei ddileu, ac am hynny ni ddylir ailweini y Sacrament sydd yn ei roddi.

**255. Pa sawl Sacrament sydd?**

Saith Sacrament sydd: sef, Bedydd, Cadarnhâd, y Lân Eucharist, Penyd, Olew Olaf, Urddau, a Phriodas.

### I.

**256. Pa beth ydyw Bedydd?**

Bedydd yw'r Sacrament ag y sydd yn ein glanhâu oddiwrth bechod gwreiddiol, ac yn ein gwneuthur yn Gristionogion, yn blant i Dduw ac yn aelodau yr Eglwys.

**257. A ydyw Bedydd hefyd yn maddeu pechodau gweithredol?**

Y mae Bedydd hefyd yn maddeu pechodau gweithredol, ynghŷd â'r holl gospedigaeth dyledus iddynt, pan dderbynir ef ag addas dueddfryd gan y rhai a fuant euog o bechod gweithredol.

**258. Pwy yw gweinidog arferol Bedydd?**

Gweinidog arferol Bedydd yw Offeiriad; ond gall pob un fedyddio, os bydd anghenraid, a dim un Offeiriad i'w gael.

**259. Pa fodd y gweinyddir Bedydd?**

Gweinyddir Bedydd trwy fwrw dwfr ar ben y plentyn, gan ddywedyd yr un amser y geiriau hyn, 'Yr wyf yn dy fedyddio di yn Enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.'

**260. Pa beth ydym yn ei addaw yn y Bedydd?**

Yr ydym yn addaw yn y Bedydd ymwrthod â'r diafol, a'i holl weithredoedd, a'i rodres.

**261. A ydyw Bedydd yn angenrheidiol i iachawdwriaeth?**

Y mae Bedydd yn angenrheidiol i iachawdwriaeth, oblegid Crist a ddywedodd, 'Oni enir dyn drachefn o ddwfr ac o'r Ysbryd Glân, ni all efe fyned i fewn i deyrnas Duw.'*

## II.

**262. Pa beth ydyw Cadarnhâd?**

Cadarnhâd yw Sacrament trwy ba un y derbyniwn yr Ysbryd Glân, er mwyn ein gwneuthur ni yn Gristionogion cadarn a pherffaith, ac yn filwyr Iesu Grist.

* Ioan iii. 5.



**263. Pwy yw arferol Weinidog Cadarnhâd?**

Arferol Weinidog Cadarnhâd yw Esgob.

**264. Pa fodd y mae'r Esgob yn gweinyddu Sacrament Cadarnhâd?**

Y mae'r Esgob yn gweinyddu Sacramen Cadarnhâd trwy weddïo ar i'r Ysbryd Glân ddyfod i lawr ar y rhai sydd i gael eu cadarnhâu; a thrwy ddodi arnynt ei law, a nodi arwydd y Groes ag olew bendigaid a elwir Crism ar eu talcennau, gan lefaru ffurf o eiriau yr un amser.

**265. Beth ydyw'r geiriau a arferir yn y Cadarnhâd?**

Y geiriau a arferir yn y Cadarnhâd yw y rhai hyn: 'Yr wyf yn dy nodi di ag arwydd y Groes, ac yr wyf yn dy gadarnhâu di â Chrism iachawdwriaeth, yn Enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

## III.

**266. Pa beth ydyw Sacrament y Lân Eucharist?**

Sacrament y Lân Eucharist ydyw gwir Gorph a Gwaed Iesu Grist, ynghŷd a'i Enaid Ef, a'i Dduwdod, o dan rithiau bara a gwîn.

**267. Pa fodd y cyfnewidir y bara a'r gwîn i Gorph a Gwaed Crist?**

Cyfnewidir y bara a'r gwîn i Gorph a Gwaed Crist trwy allu Duw, gyda'r Hwn nid oes dim yn amhosibl, nac yn anhawdd.

**268. Pa bryd y cyfnewidir y bara a'r gwîn i Gorph a Gwaed Crist?**

Cyfnewidir y bara a'r gwîn i Gorph a Gwaed Crist pan leferir yn y Lân Offeren gan yr offeiriad eiriau y Cysegriad, y rhai a ordeiniwyd gan Iesu Grist.

269. **Paham y mae Crist wedi rhoi ei Hun i ni yn y Lân Eucharist?**

Y mae Crist wedi rhoi ei Hun i ni yn y Lân Eucharist i fod yn fywyd ac yn fwyd ein heneidiau, 'Yr hwn sydd yn fy mwytta i, a fydd byw trwof fi.' 'Y neb sydd yn bwytta'r bara hwn a fydd byw yn dragywydd.'*

270. **A ydys yn derbyn Crist yn gyfan ac yn gwbl o dan un o'r ddau ryw yn unig?**

Yr ydys yn derbyn Crist yn gyfan ac yn gwbl o dan un o'r ddau ryw yn unig.

271. **Er mwyn derbyn y Sacrament Glân yn deilwng pa beth a ofynir?**

Er mwyn derbyn y Sacrament Glân yn deilwng y gofynir i ni fod mewn cyflwr o râs, ac yn ymprydio er hanner nôs.

272. **Pa beth ydyw bod mewn cyflwr o râs?**

Bod mewn cyflwr o râs yw bod yn rhydd oddiwrth bechod marwol, ac yn rhyngu bodd Duw.

273. **Ai pechod mawr ydyw derbyn y Cymun Glân yn annheilwng?**

Pechod mawr ydyw derbyn y Cymun Glân mewn pechod marwol; canys 'yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun.'

274. **Ai Sacrament yn unig ydyw'r Lân Eucharist?**

Nid Sacrament yn unig ydyw'r Lân Eucharist; y mae hi hefyd yn Aberth.

275. **Pa beth yw Aberth?**

Aberth yw offrymiad gan offeiriad i Dduw yn unig, trwy ddistrywiad rhyw beth crëedig yn

* Ioan vi. 57, 58.



nhystiolaeth o'i fod yn Arglwydd Goruchaf yr holl bethau.

276. **Pa beth yw Aberth y Gyfraith Newydd?**

Aberth y Gyfraith Newydd yw y Lân Offeren.

277. **Pa beth ydyw'r Lân Offeren?**

Y Lân Offeren yw Aberth Corph a Gwaed Iesu Grist, sydd yn wir yn bresenol ar yr allor o dan rithiau bara a gwîn, ac yn cael eu hoffrwm i Dduw dros y byw a'r meirw.

278. **A ydyw'r Lân Offeren yr un a'r unrhyw Aberth ag Aberth y Groes?**

Y mae'r Lân Offeren yr un a'r unrhyw Aberth ag Aberth y Groes, oblegid y mae Crist, yr Hwn a offrymodd ei Hun yn offrwm gwaedlyd ar y Groes i'w Dad Nefol, yn offrymu ei Hun eto mewn modd diwaedlyd ar yr allor, trwy weinidogaeth ei offeiriaid Ef.

279. **I ba rai diben yr offrymir Aberth yr Offeren?**

Offrymir Aberth yr Offeren i bedwar diben: yn gyntaf, er mwyn rhoddi goruchel anrhydedd a gogoniant i Dduw; yn ail, er diolch Iddo am ei holl ddaioni i ni; yn drydydd, er cael maddeuant am ein pechodau; ac yn bedwerydd, er ynnill pob grâs a bendith arall trwy Iesu Grist.

280. **A ydyw'r Offeren hefyd yn goffadwriaeth am Ddioddefaint a Marwolaeth ein Harglwydd?**

Y mae'r Offeren hefyd yn goffadwriaeth am Ddioddefaint a Marwolaeth ein Harglwydd, oblegid Crist, yn Ei swpper olaf, a ddywedodd, 'Gwnewch hyn er coffa amdanaf.'*

* Luc. xxii. 19.

IV.

281. **Pa beth ydyw Sacrament Penyd?**

Y mae Penyd yn Sacrament trwy ba un y maddeuir y pechodau a wnaethom ar ol Bedydd, pa un bynag ai marwol fyddont ai maddeuol.

282. **A ydyw Sacrament Penyd yn ychwanegu grâs Duw yn yr enaid?**

Y mae Sacrament Penyd yn ychwanegu grâs Duw yn yr enaid, heblaw maddeu pechod; gan hyny y dylem ni fyned i gyffesu yn fynych.

283. **Pa bryd yr ordeiniodd ein Harglwydd Sacrament Penyd?**

Ein Harglwydd a ordeiniodd Sacrament Penyd pan yr anadlodd Efe ar Ei Apostolion, ac a roddes iddynt allu i faddeu pechodau, gan ddywedyd, 'I bwy bynag y maddeuoch chwi eu pechodau, maddeuir iddynt.'*

284. **Pa fodd y mae'r Offeiriad yn maddeu pechodau?**

Y mae'r Offeiriad yn maddeu pechodau trwy allu Duw, pan lefara efe eiriau y gollyngdod.

285. **Beth ydyw geiriau y gollyngdod?**

Geiriau y gollyngdod yw: 'Yr wyf yn dy ollwng di oddiwrth dy bechodau, yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.'

286. **A ofynir dim ammodau am faddeuant o ran yr edifar?**

Tair ammod am faddeuant a ofynir o ran yr edifar: sef, edifeirwch, cyffes, ac iawn.

287. **Pa beth yw edifeirwch?**

* Ioan xx. 23.



Edifeirwch yw gwir gystudd calon am ein pechodau, am mai trwyddynt hwy y digiasom Dduw mor dda; ynghŷd â bwriad cadarn o ymwellhâu.

288. **Pa beth ydyw bwriad cadarn o ymwellhâu?**

Y mae bwriad cadarn o ymwellhâu yn llawn fryd calon i ochel pechod trwy râs Duw; ac nid pechod yn unig, ond hefyd pob achlysur enbydus o bechod.

289. **Pa fodd y gallwn ni gael gwir gystudd calon am ein pechodau?**

Gallwn gael gwir gystudd calon am ein pechodau trwy weddïo amdano yn daer, a thrwy ymarfer a'r cyfryw ystyriaethau ag a'n harweiniont atto.

290. **Pa ystyriaeth am Dduw a all ein harwain at gystudd calon am ein pechodau?**

Yr ystyriaeth am Dduw a all ein harwain at gystudd calon am ein pechodau yw, mai trwy ein pechodau yr ydym wedi digio Duw, yr Hwn sydd anfeidrol dda ynddo ei Hun, ac anfeidrol dda tuag attom ni.

291. **Pa ystyriaeth am ein Hiachawdwr a'n harwain ni i gystudd calon am ein pechodau?**

Yr ystyriaeth am ein Hiachawdwr a'n harwain ni i gystudd calon am ein pechodau yw mai am ein pechodau y bu farw ein Hiachawdwr, a'r rhai a bechant yn drwm 'a ail-groeshoeliant iddynt eu hunain Fab Duw, gan Ei osod yn watwor.'*

292. **A ydyw gwir gystudd calon am ein pechodau, am mai trwyddynt hwy yr ydym wedi colli y Nef, ac**

* Heb. vi. 6.

**wedi haeddu yr Uffern, yn ddigon wrth fyned i gyffes?**

Y mae gwir gystudd calon am ein pechodau, am mai trwyddynt hwy yr ydym wedi colli y Nef, ac wedi haeddu yr Uffern, yn ddigon wrth fyned i gyffes.

293. **Pa beth ydyw edifeirwch perffaith?**

Edifeirwch perffaith yw tristwch am bechod yn tarddu yn hollol o gariad at Dduw.

294. **Pa werth arbenig sydd i edifeirwch perffaith?**

Y mae i edifeirwch perffaith y werth arbenig hon, sef, mai trwyddi y maddeuir ein pechodau yn ebrwydd, ie, cyn eu cyffesu, ond, er hyn i gyd, yr ydym yn rhwymedig i'w cyffesu wedi hyny, os marwol fyddont.

295. **Pa beth ydyw cyffes?**

Cyffes yw cyhuddo o honom ein hunain o'n pechodau wrth Offeiriad wedi ei gymeradwyo gan yr Esgob.

296. **Pa beth a ddaw os cêl rhyw un o'i wirfodd bechod marwol yn ei gyffes?**

Os cêl rhyw un bechod marwol yn ei gyffes bydd yn euog o gysegrlwgr mawr, trwy ddywedyd celwydd wrth yr Yspryd Glân, wrth wneuthur cyffes ddrwg.

297. **Pa sawl peth y dylem eu gwneuthur er ymbarottoi i gyffesu?**

Dylem wneuthur pedwar peth er ymbarottoi i gyffesu—yn gyntaf, rhaid i ni weddio o'r galon am râs i wneuthur cyffes dda; yn ail, rhaid i ni holi yn ddyfal ein cydwybod; yn drydydd, rhaid i ni gymeryd amser a gofal i wneuthur gweithred dda o edifeirwch perffaith; ac yn bedwerydd, rhaid i ni fwriadu, trwy gymmorth Duw, ymwrthod â'n pechodau, a dechreu o hyn allan fuchedd newydd.



298. **Pa beth ydyw iawn?**

Iawn ydyw cyflawni'r Penyd a roddwyd i ni gan yr Offeiriad.

299. **A ydyw'r penyd a roddir gan yr Offeiriad yn gwneuthur bob amser iawn cyflawn am ein pechodau?**

Nid ydyw'r penyd a roddir gan yr Offeiriad yn gwneuthur pob amser iawn cyflawn am ein pechodau. Gan hyny y dylem ni ychwanegu atto weithredoedd da eraill, a phenydau, a cheisio ynnill indwlgensiau.

300. **Pa beth ydyw indwlgens?**

Indwlgens yw rhyddhâd, wedi ei ganiattâu gan yr Eglwys, o'r gospedigaeth amserol yr hon a erys yn fynych yn ddyledus i bechod wedi maddeu i ni ei euogrwydd.

## V.

301. **Pa beth ydyw Sacrament Olew Olaf?**

Sacrament Olew Olaf yw Eneiniad y cleifion ag olew sanctaidd, ynghŷd â gweddi.

302. **Am ba bryd y rhoddir yr olew Olaf?**

Rhoddir yr Olew Olaf pan y mae y claf mewn perygl o farw.

303. **Pa rai ydyw effeithiau Sacrament Olew Olaf?**

Effeithiau Sacrament Olew Olaf yw cysuro a chadarnhâu yr enaid, gollwng oddiwrth pechod, ac hefyd adferu'r iechyd, pan wêl Duw fod hyny yn dda.

304. **Pa awdurdod sydd yn yr Ysgrythyr am Sacrament Olew Olaf?**

Yr awdurdod yn yr Ysgrythyr am Sacrament Olew Olaf sydd yn y bummed bennod o Epistol S. Iago, lle y dywedir; 'A oes neb yn eich plith yn glaf? Galwed atto Offeiriaid yr Eglwys, a gweddiant hwy drosto, gan ei enneinio ef yn Enw'r Arglwydd: a gweddi'r ffydd a iachâ'r claf; a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fynu; ac os bydd wedi gwneuthur pechodau, hwy a faddeuir iddo.'*

## VI.

305. **Pa beth ydyw Sacrament Urddau?**

Urddau yw Sacrament, trwy ba un yr ydys yn ordeinio Esgobion, Offeiriaid, a gweinidogion eraill yr Eglwys, a thrwy ba un y derbyniant hwy allu a grâs i gyflawni eu dyledswyddau sanctaidd.

## VII.

306. **Pa beth ydyw Sacrament Priodas?**

Priodas yw y Sacrament, yr hwn a sancteiddia ammod dyweddi, ac a rŷdd râs neillduol i'r rhai a'i dderbyniant yn deilwng.

307. **Pa râs neillduol y mae Sacrament Priodas yn ei roddi i'r sawl a'i dderbyniant yn deilwng?**

Y mae Sacrament Priodas yn rhoddi grâs neillduol i'r sawl a'i dderbyniant yn deilwng, i'w nerthu hwynt i ddwyn anhawsderau eu cyflwr, ac i garu, a bod yn ffyddlon y naill i'r llall; hefyd i ddwyn i fyny eu plant yn ofn Duw.

308. **Ai cysegrlwgr yw ammodi priodas mewn pechod marwol, neu mewn anufudd-dod i gyfreithiau yr Eglwys?**

* S. Iago v. 14, 15.



Cysegrlwgr yw ammodi priodas mewn pechod marwol, neu mewn anufudd-dodd i gyfreithiau yr Eglwys, ac y mae'r rhai sydd yn euog o hyny yn tynu i lawr arnynt eu hunain ddigllonedd Duw, yn lle bendith.

309. **Pa beth ydyw cymysg-briodas?**

Cymysg-briodas yw priodas rhwng un ag a fo Gathôlig, ag un a fo heb broffesu y ffydd Gatholig, er bod o hono wedi ei fedyddio.

310. **A ydyw'r Eglwys bob amser wedi gwahardd cymysg-briodasau?**

Y mae'r Eglwys bob amser wedi gwahardd cymysg-briodasau, a'u hystyried yn anghyfreithlon ac yn niweidiol.

311. **A ydyw'r Eglwys weithiau yn caniattâu cymysg-briodasau?**

Y mae'r Eglwys weithiau yn caniattâu cymysg-briodasau, trwy roddi rhyddhâd, am resymau tra pwysfawr, ac o dan ammodau neillduol.

312. **A ddichon i unrhyw allu dynol ddattod cwlwm priodas?**

Ni ddichon i unrhyw allu dynol ddattod cwlwm priodas; oblegid Crist a ddywedodd:—'Y peth a gysylltodd Duw, na ysgared dyn.'*

## PENOD VII.

### AM Y RHINWEDDAU A'R GWYDAU.

313. **Pa rai ydyw'r Rhinweddau Duwinyddol?**

Y Rhinweddau Duwinyddol yw Ffydd, Gobaith, a Chariad.†

314. **Paham y gelwir hwynt yn Rhinweddau Duwinyddol?**

* Matt. xix. 6. † 1 Cor. xiii. 13.

Gelwir hwynt yn Rhinweddau Duwinyddol, oblegid y mae iddynt berthynas digyfrwng â Duw.

315. **Pa rai ydyw dirgeledigaethau arbenig y Ffydd, y rhai y mae pob Cristion yn rhwymedig i'w gwybod?**

Dirgeledigaethau arbenig y Ffydd, y rhai y mae pob Cristion yn rhwymedig i'w gwybod, yw Undod a Thrindod Duw, a Chnawdoliaeth, Marwolaeth, ac adgyfodiad ein Hiachawdwr.

316. **Pa rai ydyw'r Prif-rinweddau?**

Y Prif-rinweddau yw 'Pwyll, Cyfiawnder, Grymusder, Cymedroldeb.'*

317. **Paham y gelwir hwynt yn Brif-rinweddau?**

Gelwir hwynt yn Brif-rinweddau, oblegid eu bod hwy yn brif-bennau, ar ba rai y trŷ y rhinweddau moesol eraill i gŷd.

318. **Pa rai ydyw saith ddawn yr Ysbryd Glân?**

Saith ddawn yr Ysbryd Glân ydyw:

1. Doethineb.
2. Deall.
3. Cynghor.
4. Grymusder.
5. Gwybodaeth.
6. Duwioldeb.
7. Ofn yr Arglwydd.†

319. **Pa rai ydyw deuddeg ffrwyth yr Ysbryd Glân?**

Deuddeg ffrwyth yr Ysbryd Glân yw:

1. Cariad.
2. Llawenydd.
3. Tangnefedd.
4. Amynedd.
5. Tiriondeb.
6. Daioni.
7. Hir-ymaros.
8. Addfwynder.
9. Ffydd.
10. Gwylder.
11. Ymattal.
12. Diweirdeb.‡

* Doethineb viii. 7. † Esay xi. 2, 3. ‡ Gal. v. 22.



320. **Pa rai ydyw'r ddau orchymyn mawr o Gariad?**

Y ddau orchymyn mawr o Gariad yw:

1. 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth.'
2. 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.'*

321. **Pa rai ydyw'r saith Weithred Gorphorol o Drugaredd?**

Y saith Weithred Gorphorol o Drugaredd yw:

1. Porthi y newynog.
2. Diodi'r sychedig.
3. Dilladu'r noethion.
4. Llettya'r di-letty.
5. Ymweled â'r cleifion.
6. Ymweled â'r carcharorion.
7. Claddu y meirw.†

322. **Pa rai ydyw'r saith Weithred Ysbrydol o Drugaredd?**

Y saith Weithred Ysbrydol o Drugaredd yw:

1. Troi'r pechadur.
2. Dysgu'r annysgedig.
3. Cynghori'r ammheus.
4. Cysuro'r gofidus.
5. Dwyn cam yn amyneddgar.
6. Maddeu troseddau.
7. Gweddio dros y byw a'r meirw.

323. **Pa rai ydyw'r wyth Wynfyd?**

Yr wyth Wynfyd yw:

1. Gwyn eu byd y tylodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.

* Marc. xii. 30, 31. † Matt. xxv; Tobias xii.

2. Gwyn eu byd y rhai addfwyn: canys hwy a etifeddant y ddaear.

3. Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru: canys hwy a ddiddenir.

4. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.

5. Gwyn eu byd y trugarogion: canys hwy a gânt drugaredd.

6. Gwyn eu byd y rhai pur o galon: canys hwy a welant Dduw.

7. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr: canys hwy a elwir yn blant i Dduw.

8. Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder: canys eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.*

324. **Pa rai ydyw'r saith brif-wyd neu'r saith bechod arbenig, a'u rhinweddau gwrthwynebol?**

Y saith brif-wyd, neu'r saith bechod arbenig a'u rhinweddau gwrthwynebol yw:

| | |
|---|---|
| 1. Balchder. | 1. Gostyngeiddrwydd. |
| 2. Cybydd-dra. | 2. Haelioni. |
| 3. Trachwant. | 3. Diweirdeb. |
| 4. Digter. | 4. Addfwynder. |
| 5. Glythineb. | 5. Dirwest. |
| 6. Cenfigen. | 6. Brawdgarwch. |
| 7. Llesgedd. | 7. Dyfaledd. |

325. **Paham y gelwir hwynt yn brif bechodau?**

Gelwir hwynt yn brif bechodau oblegid y ffynnonau ydynt o ba rai y mae'r holl bechodau eraill yn tarddu.

326. **Pa rai ydyw'r chwech pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân?**

* Matt. v. 3-10.



Y chwech pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân ydyw:

1. Rhyfig.
2. Anobaith.
3. Gwrthwynebiad i'r gwir a wyddys.
4. Cenfigen wrth dda ysbrydol neb arall.
5. Cildynrwydd mewn pechod.
6. Anedifeirwch hyd y diwedd.

327. **Pa rai ydyw'r pedwar pechod sydd yn gwaeddi i'r nef am ddial?**

Y pedwar pechod a waeddant i'r nef am ddial yw:

1. Llofruddiaeth bwriadol.*
2. Pechod Sodom.†
3. Gorthrymu y tylodion.‡
4. Cam-attal cyflog y gweithwyr.§

328. **Pa bryd ydym yn attebawl am bechodau rhai eraill?**

Yr ydym yn attebawl am bechodau rhai eraill cyn fynyched ac ydym yn achlysur, neu yn gyfrannog o honynt trwy ein bai ein hunain.

329. **Ymha sawl modd y gallwn ni fod yn achlysur neu yn gyfrannog o euogrwydd pechodau rhai eraill?**

Gallwn ni fod yn achlysur neu yn gyfrannog o euogrwyd pechodau rhai eraill mewn naw modd: sef,

1. Trwy gynghor.
2. Trwy orchymyn.
3. Trwy gydsyniad.
4. Trwy annogiad.
5. Trwy ganmoliaeth neu weniaith.

* Gen. iv. † *Ibid.* xviii. ‡ Exod. ii. § Iago v.

6. Trwy guddiad o hono.
7. Trwy gyfraniad o hono.
8. Trwy ddistawrwydd.
9. Trwy amddiffyn y drwg a wnaed.

330. **Pa rai ydyw'r tair Gweithred Dda oruchaf?**
Y tair Gweithred Dda oruchaf yw:
1. Gweddi. 2. Ympryd. 3. Elusen.

331. **Pa rai ydyw 'r Cynghorion Efangylaidd?**
Y Cynghorion Efangylaidd yw Tylodi gwirfoddol, diweirdeb gwastadol, ac ufudd-dod cyflawn.

332. **Pa rai ydyw'r pedwar peth olaf, i'w cofio yn wastad?**
Y pedwar peth olaf, i'w cofio yn wastad, yw Angeu, Barn, Uffern, a'r Nefoedd.*

## PENOD VIII.

### RHEOL BUCHEDD Y CRISTION.

333. **Pa rëol buchedd y mae rhaid i ni ei ddilyn, os gobeithiwn fod yn gadwedig?**
Os gobeithiwn fod yn gadwedig, rhaid i ni ddilyn rhëol buchedd a ddysgwyd gan Jesu Grist.

334. **Pa beth ydym yn rhwymedig ei wneuthur wrth rëol buchedd a ddysgwyd gan Jesu Grist?**
Wrth rëol buchedd a ddysgwyd gan Jesu Grist yr ydym yn rhwymedig yn wastad i gashâu pechod a charu Duw.

335. **Pa fodd ydym i gashâu pechod?**
Rhaid i ni gashâu pechod uwchlaw pob drwg arall; fel ag i fod yn benderfyniad genym na wnelem un pechod o'n gwirfodd, er cariad nac ofn dim, pa beth bynag a fo.

* Eccl. vii.



336. **Pa fodd ydym i garu Duw?**
Yr ydym i garu Duw uwchlaw pob dim, ac â'r holl galon.

337. **Pa fodd ydym i ddysgu caru Duw?**
Yr ydym i ddysgu caru Duw trwy erfyn ar i Dduw ddysgu i ni ei garu Ef: 'O fy Nuw, dysg i mi dy garu Di.'

338. **Pa beth y mae cariad Duw yn ein harwain ni i'w wneuthur?**
Y mae cariad Duw yn ein harwain ni i feddwl yn fynych mor dda ydyw Duw: i lefaru wrtho yn fynych yn ein calonnau; ac i geisio bob amser ei foddloni Ef.

339. **A ydyw Iesu Grist yn dysgu i ni hefyd garu ein gilydd?**
Y mae Iesu Grist yn dysgu i ni hefyd garu ein gilydd, sef pob dyn yn ddi-anach, er ei fwyn Ef.

340. **Pa fodd ydym i garu ein gilydd?**
Yr ydym i garu ein gilydd trwy ddymuno yn dda i'n gilydd, a thrwy weddïo dros ein gilydd; a thrwy fod heb roddi lle i un meddwl, gair, na gweithred, er niwed i neb.

341. **A ydym ni hefyd yn rhwymedig i garu ein gelynion?**
Yr ydym ni hefyd yn rhwymedig i garu ein gelynion; nid yn unig trwy faddeu iddynt o'n calonnau, ond trwy ewyllysio yn dda iddynt hefyd, a gweddïo trostynt.

342. **A ydyw Iesu Crist wedi rhoi i ni un rhëol fawr arall?**
Y mae Iesu Grist wedi rhoi i ni un rhëol fawr arall yn y geiriau hyn: 'Os ewyllysia neb

ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a choded ei groes beunydd, a dilyned fi.'*

343. **Pa fodd ydym i ymwadu â ni ein hunain?**

Yr ydym i ymwadu â ni ein hunain trwy ymwrthod â'n hewyllys ein hunain, a thrwy wrthwynebu ein hanwydau, a'n tueddiadau, a'n gŵyniau.

344. **Paham ydym yn rhwymedig i ymwadu â ni ein hunain?**

Yr ydym yn rhwymedig i ymwadu â ni ein hunain, oblegid y mae ein tueddiadau naturiol yn pwyso tuag at y drwg, ie, o'n mebyd; ac oni ffrwynir hwy trwy hunan-ymwadiad, hwy a'n harweiniant yn ddïammeu i uffern.

345. **Pa fodd ydym i gyfodi ein Croes beunydd?**

Yr ydym i gyfodi ein Croes beunydd trwy ymostwng yn amyneddgar i boenau a goddefiadau y bywyd byr yma, a thrwy eu dwyn yn ewyllysgar er cariad at Dduw.

346. **Pa fodd ydym i ddilyn ein Harglwydd Bendigedig?**

Yr ydym i ddilyn ein Harglwydd Bendigedig trwy rodio yn ol ei draed Ef, a chydymagweddu â'i rinweddau Ef.

347. **Pa rai ydyw'r prif rinweddau ag y dylem eu dysgu gan ein Harglwydd Bendigedig?**

Y prif rinweddau ag y dylem eu dysgu gan ein Harglwydd Bendigedig yw, addfwynder, gostyngeiddrwydd, ac ufudd-dod.

348. **Pa rai ydyw'r gelynion ag y mae'r Cristion i ymladd yn eu herbyn holl ddyddiau ei einioes?**

Y gelynion y rhai y mae'r Cristion i ymladd yn eu herbyn holl ddyddiau ei einioes yw, y diafol, y byd, a'r cnawd.

* Luc. ix. 23.



349. **Pa beth a feddyliwch wrth y diafol?**

Wrth y diafol y meddyliaf Satan, a'i holl angylion drwg, y rhai a geisiant yn wastad ein denu ni i bechu, fel y bôm ddamnedig gydâ hwynt.

350. **Pa beth a feddyliwch wrth y byd?**

Wrth y byd y meddyliaf egwyddorion gau y byd, a chyfeillach y rhai a garant orwagedd, golud, a difyrwch y byd hwn yn fwy na Duw.

351. **Paham y cyfrifwch y diafol a'r byd ymhlith gelynion yr enaid?**

Cyfrifaf y diafol a'r byd ymhlith gelynion yr enaid, oblegid y maent bob amser yn ceisio trwy brofedigaeth, a thrwy air, neu esiampl, ein denu ni gydâ hwynt i'r ffordd lydan a arwain i ddamnedigaeth.

352. **Pa beth a feddyliwch wrth y Cnawd?**

Wrth y Cnawd y meddyliaf ein tueddiadau a'n gŵyniau llygredig ein hunain, y rhai ydynt yr enbydaf o'n holl elynion.

353. **Pa beth y mae rhaid i ni ei wneuthur i rwystro gelynion ein heneidiau i'n denu ni i bechu?**

Er rhwystro gelynion ein heneidiau i'n denu ni i bechu rhaid i ni wylied, gweddïo, ac ymladd yn erbyn eu hannogaethau a'u profedigaethau oll.

354. **Yn y filwriaeth yn erbyn y diafol, y byd, a'r cnawd, ar bwy y mae rhaid i ni ymddiried?**

Yn y filwriaeth yn erbyn y diafol, a'r byd, a'r cnawd, nid arnom ein hunain y mae rhaid i ni ymddiried, eithr ar Dduw yn unig: 'Yr wyf yn

gallu pob peth ynddo Ef yr Hwn sydd yn fy nerthu i.' *

## PENOD IX.

### YMARFER BEUNYDDIOL Y CRISTION.

355. **Pa fodd y dylech chwi ddechreu ar waith y diwrnod?**

Dylwn ddechreu ar waith y diwrnod gan wneuthur arwydd y Groes cyn gynted ag y deffröwyf y boreu, a dywedyd rhyw weddi fer, megis, 'O fy Nuw, offrymaf i Ti fy nghalon a'm henaid.'

356. **Pa fodd y dylech chwi godi y boreu?**

Dylwn godi y boreu yn ddyfal, ymwisgo yn weddus, ac yna benlinio, a dywedyd fy ngweddïau boreuol.

357. **A ddylech chwi hefyd wrando yr Offeren, os bydd i chwi amser a chyfleusdra i hyny?**

Dylwn hefyd wrando yr Offeren, os bydd i mi amser a chyfleusdra i hyny, oblegid mai gwrando yr Offeren yw'r weithred oreu o lawer o dduwioldeb, a hefyd y mwyaf llesiannol.

358. **A oes lles o wneuthur myfyrdod beunyddiol?**

Y mae lles o wneuthur myfyrdod beunyddiol, oblegid y bu'r cyfryw yn ymarfer y Seintiau oll.

359. **Pa bethau y dylem ni fyfyrio amdanynt?**

Dylem fyfyrio yn benaf am y pedwar peth olaf, ac am Fuchedd a Dioddefaint ein Harglwydd Bendigedig.

360. **A ddylem ni ddarllain yn fynych lyfrau da?**

Dylem ddarllain yn fynych lyfrau da, megis

* Philip iv. 13.



y Sanctaidd Efengyl, Bucheddau y Saint, a llyfrau ysbrydol eraill, ag y sydd yn porthi ein ffydd a'n duwioldeb, ac yn ein harfogi yn erbyn gau egwyddorion y byd.

361. **A pha beth y dylech chwi ei wneuthur o ran bwytta ac yfed, a chysgu, ac ymddifyru?**

O ran bwytta ac yfed, a chysgu, ac ymddifyru, dylwn arfer y pethau hyn oll â chymmedrolder, ac â deisyf i ryngu bodd Duw.

362. **Dywedwch yr arch am fendith o flaen bwyd?**

'Bendithia ni, O Arglwydd, ynghŷd â'th roddion hyn, y rhai o'th ddaioni yr ŷm ar eu derbyn, trwy Grist ein Harglwydd. Amen.'

363. **Dywedwch y diolch ar ol bwyd?**

'Diolchwn i Ti, Hollalluog Dduw, am dy holl drugareddau i ni, yr Hwn wyt yn byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd. Amen. Boed i eneidiau 'r ffyddloniaid ymadawedig, trwy drugaredd Duw, orphwys mewn tangnefedd. Amen.'

364. **Pa fodd y dylech chwi sancteiddio gweithredoedd a gorchwylion arferol y dydd?**

Dylwn sancteiddio gweithredoedd a gorchwylion arferol y dydd trwy godi yn aml fy nghalon at Dduw, a dywedyd iddo ryw weddi fer tra fôm yn eu mysg.

365. **Pa beth y dylech ei wneuthur, pan y'ch temtir i bechu?**

Pan y'm temtir i bechu dylwn wneuthur arwydd y Groes ar fy nghalon, a galw ar Dduw o wir ddifrif, gan ddywedyd, 'Arglwydd, gwared fi, neu ddarfu amdanaf.'

366. **Os byddwch wedi syrthio i bechod, pa beth a ddylech ei wneuthur?**

Os bwyf wedi syrthio i bechod, dylwn fwrw fy hun yn yr ysbryd wrth draed Crist, a deisyf yn ostyngedig faddeuant ganddo Ef, trwy weithred ddiffuant o edifeirwch.

367. **Pan ddanfono Duw i chwi ryw groes, neu glefyd, neu ddolur, pa beth a ddylech ddywedyd?**

Pan ddanfono Duw i mi ryw groes, neu glefyd, neu ddolur, dylwn ddywedyd, 'Arglwydd, gwneler dy ewyllys; cymeraf hyn am fy mhechodau.'

368. **Pa weddïau bychain ag y sydd iddynt indwlgens a wnelech dda eu dywedyd wrthych eich hun yn aml yn y dydd?**

Gwnelwn dda ddywedyd wrthyf fy hun yn aml yn y dydd y fath weddiau a hyn, ag y sydd iddynt indwlgens; sef,

'Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân; megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.'

'Gwneler, canmoler, ac ardderchafer ymhob peth sancteiddiaf, a chyfiawnaf, ac hawddgaraf Ewyllys Duw uwchlaw pob dim yn dragywydd.'

'O Sacrament sancteiddiaf, O Sacrament ddwyfol fawr,
Pob mawl, a diolchgarwch, a fo i Ti bob awr!'

'Canmoledig fo Jesu Grist, canmoledig fo Ef am byth!'

'Trugarhâ wrthyf, O fy Jesu; cynnorthwya fi, O Fair!'

369. **Pa fodd y dylech chwi ddwyn y dydd i ben?**

Dylwn ddwyn y dydd i ben trwy benlinio a dywedyd fy ngweddïau'r nos.

370. **Wedi eich gweddiau'r nos pa beth y dylech ei wneuthur?**

Wedi fy ngweddïau'r nos y dylwn gadw gwylder dyledus wrth fyned i'm gwely; a meddwl hefyd am angeu; a cheisio ymorphwys wrth droed y Groes, gan roddi fy meddyliau olaf i'm Hiachawdwr a groeshoeliwyd drosof.



# ACHWANEGIAD.

## FFURF FER O WEDDI BOREUOL.

Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

Bendigedig fo'r Sanctaidd Drindod ddiwahân yr awr hon, ac yn oes oesoedd. Amen.

Credaf ynot Ti, O fy Nuw: Tithau cadarnhâ fy ffydd. Ynot Ti y mae fy ngobaith oll; Tithau sicrhâ ef i mi. Mi a'th garaf Di â'm holl galon; dysg i mi dy garu fwyfwy bob dydd. Y mae'n ddolurus genyf fy mod wedi dy ddigio Di; Tithau ychwanega fy nolur.

O fy Nuw, er mor ddaionus y buost Ti wrthyfi, lleied a wnaethym innau drosot Ti! O ddim Ti a'm creaist i, ag angeu dy Fab Ti a'm prynaist i, â grâs dy Ysbryd Glân Ti a'm sancteiddiaist i! I'th Eglwys a'm gelwaist i, a phob grâs angenrheidiol i'm hiachawdwriaeth yr wyt yn ei roddi i mi. Trwy'r nos a aeth heibio Ti a'm cedwaist i, a'r diwrnod hwn yma Ti a'i roddaist i mi, ym mha un y dichon i mi dy wasanaethu Di. Beth a dalaf i Ti, O Dduw, am yr hyn oll a wnaethost drosof fi? Dy Enw sanctaidd Di a fendigaf, a Thi a wasanaethaf holl ddyddiau fy mywyd.

I Ti yr offrymaf fy meddyliau oll, ynghŷd â'm geiriau, â'm gweithredoedd, a'm cystuddiau; ac a attolygaf i Ti roddi i mi dy râs, fel na bo i mi droseddu dim y dydd hwn yn dy erbyn, eithr dy wasanaethu Di yn ffyddlon, a chyflawni dy Ewyllys sanctaidd ymhob peth.

*Ein Tad.* *Henffych well Fair.* *Credaf yn Nuw.*

### GWEITHRED O FFYDD.

Credaf yn sicr fod un Duw, a bod yn yr un Duw hwn dri Pherson, sef, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; i'r Mab gymeryd atto ei Hun natur dyn o grôth y Forwyn Fair, trwy allu yr Ysbryd Glân; ac Iddo yn ein natur ddynol hon gael ei groeshoelio, a marw drosom; ac wedi hyn Iddo adgyfodi, ac ymddyrchafu i'r nef: oddiyno y daw i dalu gogoniant tragwyddawl i'r rhai cyfiawn, a chospedigaeth tragwyddawl i'r rhai drwg. Ymhellach, yr wyf yn credu pa beth bynag y mae'r Eglwys Gatholig yn gynnyg i ni i'w gredu, a hyn oblegid y mae Duw, yr hwn yw y Gwirionedd penaf, yr hwn ni all na thwyllo na chael ei dwyllo, wedi dadguddio'r pethau hyn oll iddi Hi, yr hon yw ei Eglwys Ef.

GWEITHRED O OBAITH.

O fy Nuw, gan hyderu ar dy allu hollgyfoethog, ac ar dy drugaredd a'th ddaioni anfeidrol, ac am mai ffyddlon wyt i'th addewidion, yr ymddiriedaf wrthyt y caniattei i mi faddeuant o'm pechodau trwy haeddedigaethau Iesu Grist dy Fab; ac y rhoddi i mi gynnorthwy dy râs, trwy ba un y gallwyf barhâu hyd y diwedd yn nyfal ymarferiad yr holl weithredoedd da, ac yr haeddwyf dderbyn y gogoniant a addewaist Di yn y nef.

GWEITHRED O GARIAD.

O Arglwydd fy Nuw, yr wyf yn dy garu Di â'm holl galon, ac uwchlaw pob dim, oblegid mai Tydi, O fy Nuw, yw y Daioni Penaf, ac yn deilyngaf o bob cariad am dy berffeithrwydd anfeidrol dy Hun; ac, er dy fwyn Di, yr wyf yn caru fy nghymydog fel fi fy hun.

GWEITHRED O EDIFEIRWCH.

O fy Nuw, y mae'n ddrwg genyf am fy holl bechodau, yr wyf yn erchi maddeuant amdanynt, ac yr wyf yn eu cashâu hwynt uwchlaw pob dim, am haeddu o honynt dy gospedigaethau dychrynllyd, oblegid y maent wedi croeshoelio fy Iachawdwr caruaidd Iesu Grist; a, mwyaf oll, oblegid y maent yn troseddu yn erbyn dy anfeidrol ddaioni; ac yr wyf yn bwriadu yn sicr, trwy gymhorth dy râs, na throseddaf fyth mwy yn dy erbyn, ac ymegniaf yn ofalus i ochel pob achlysur o bechod.

Sanctaidd Fair, bydd di i mi yn Fam.

O fy Angel da, yr hwn a osododd Duw i mi yn geidwad, goleua fi, a chadw fi, hyfforddia fi, a llywia fi, ar hyd y dydd heddyw.

Holl Angylion a Seintiau Duw, gweddiwch drosofi.

Yr Arglwydd a'n bendithio ni, a'n gwaredo ni rhag pob drwg, ac a'n dygo ni i'r bywyd tragwyddol. A gorphwysed eneidiau'r ffyddloniaid ymadawedig, trwy drugaredd Duw, mewn tangnefedd. Amen.

---

## FFURF FER O WEDDI BRYDNAWNOL.

Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen.

*Ein Tad. Henffych well, Fair. Credaf yn Nuw.*

Cyffesaf i'r Hollalluog Dduw, i Fendigaid Fair y fyth Forwyn, i fendigaid Fihangel Archangel, i fendigaid Ioan Fedyddiwr, i'r Sanctaidd Apostolion Pedr a Phawl, ac i'r holl Saint, fy mod wedi pechu dros ben mewn meddwl, gair, a gweithred, trwy fy mai, trwy fy mai, trwy fy nirfawr fai. Gan hyny yr attolygaf ar Fendigaid Fair y fyth Forwyn, ar fendigaid Fihangel Archangel, ar fendigaid



Iôan Fedyddiwr, ar y Sanctaidd Apostolion Pedr a Phaul, ac ar yr holl Saint, iddynt weddïo ar yr Arglwydd ein Duw drosofi.

O fy Nuw, credaf dy fod Di yma yn bresennol; a'th fod Di yn nodi fy holl weithredoedd, a'm holl feddyliau, a chynhyrfiadau dirgelaf fy nghalon. Mi a'th addolaf Di ac a'th garaf a'm holl galon.

Diolchaf i Ti am yr holl roddion da ag a dderbyniais genyt erioed, ac ar y dydd hwn yma yn neillduol. Dyro i mi oleuni, O fy Nuw, i weled pa bechodau bynag a wneuthum y dydd heddyw, a dyro i mi râs i fod yn wir edifar genyf drostynt.

(*Ymhola di yma a ddarfu it ddigio Duw ar hyd y dydd trwy'r un meddwl, gair, gweithred neu esgeulusdra unrhyw ddyledswydd.*)

O fy Nuw, yr Hwn wyt yn anfeidrol dda ynot dy Hun, ac yn anfeidrol dda tuag attaf, y mae'n ddrwg genyf am fy holl bechodau, ac archaf faddeuant amdanynt, â ffieiddiaf hwynt uwchlaw pob dim, am haeddu o honynt Dy ddychrynllyd gospedigaethau, oblegid y maent hwy wedi croeshoelio fy Hiachawdwr caruaidd Iesu Grist, ac yn benaf, am droseddu o honynt yn erbyn dy anfeidrol ddaioni; ac yr wyf yn bwriadu yn sicr drwy gymhorth dy râs, na throseddaf fyth mwy yn dy erbyn, ac ymegniaf yn ofalus i ochel pob achlysur pechod.

(*Gosod yma dy hunan yn y tueddiad y dymuni dy gael ynddo yn awr angeu.*)

O fy Nuw, derbyniaf farwolaeth megis yn weithred o warogaeth ac addoliant sydd yn ddyledus arnaf i'th ddwyfol Fawrhydi, ac yn gospedigaeth cyfiawn ddyledus i'm pechodau; mewn undeb â marwolaeth fy Hiachawdwr cariadus, ac yn unig foddion i ddyfod attat Ti, fy nechreuad, a'm diwedd olaf.

I'th ddwylaw, O Arglwydd, y gorchymynaf fy ysbryd; Arglwydd Iesu, derbyn fy enaid.

O Sanctaidd Fair, bydd di i mi yn Fam. Boed i'r Fendigaid Forwyn Fair, i Sant Ioseph, ac i'r holl Saint, weddïo drosom ar yr Arglwydd, fel y byddom yn gadwedig y nos hon rhag pechod a rhag pob drwg. Amen.

O fy Angel da, yr hwn a osododd Duw i fod i mi yn geidwad, gwylia di drosofi y nos hon.

Chwychwi, yr holl Angylion a Seintiau Duw, gweddiwch drosofi.

Yr Arglwydd a'n bendithio ni, a'n cadwo ni rhag pob drwg, ac a'n harweinio ni i'r bywyd tragwyddol. Amen.

A gorphwysed eneidiau'r ffyddloniaid ymadawedig, trwy drugaredd Duw, mewn tangnefedd. Amen.

## PYMTHEG DIRGELEDD Y ROSARIWN.

### Y DIRGELEDIGAETHAU LLAWENYCHOL.

1. Cyfarchiad yr Wyrvf Fendigaid.
2. Ymweliad y Santes Elisabeth.
3. Genedigaeth ein Harglwydd Bendigaid.
4. Cyflwyniad ein Harglwydd yn y Deml.
5. Caffael ein Harglwydd yn y Deml.

### Y DIRGELEDIGAETHAU GOFIDUS.

1. Ing ein Harglwydd yn yr Ardd.
2. Fflangellu ein Harglwydd wrth y piler.
3. Coroni ein Harglwydd â Drain.
4. Ein Harglwydd yn dwyn ei Groes.
5. Y Groeshoeliad.

### Y DIRGELEDIGAETHAU GOGONEDDUS.

1. Adgyfodiad ein Harglwydd.
2. Dyrchafael ein Harglwydd.
3. Disgyniad yr Ysbryd Glân ar yr Apostolion.
4. Cymeriad yr Wyryf Fendigaid i'r Nef.
5. Coronedigaeth ein Mam Fendigaid yn y Nef.

Église catholique en Finistère
Document numérisé en 2022